



Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol

Blwyddyn ddaeth i ben 31 Awst 2020

Welsh National Opera Limited

(Cwmni wedi cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannau)

Rhif Cwmni: 00454297 (Lloegr a Chymru) Rhif Elusen : 221538

Cynnwys

- 2 Amcanion, Gweledigaeth, Cenhadaeth a Gwerthoedd
- 3 Datganiad y Cadeirydd

Adroddiad Strategol

- 5 Adroddiad Rheolaeth Strategol
- 6 Amgylchedd Busnes
- 7 Perfformiad Busnes
- 14 Adolygiad Ariannol
- 18 Adroddiad y Cyfarwyddwyr
- 21 Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol

- 22 Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau Welsh National Opera Limited

Datganiadau Ariannol

- 25 Datganiad Cyfunol o'r Gweithgareddau Ariannol
- 26 Mantolen Gyfunol
- 27 Mantolen y Cwmni
- 28 Datganiad Llif Arian Cyfunol

Nodiadau

- 29 Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol

Manylion cyfeirio a gweinyddol

- 57 Manylion y Cwmni
- 57 Cynghorwyr Proffesiynol
- 58 Cyfarwyddwyr a Swyddogion

Mae'r ymddiriedolwyr yn falch o gyflwyno eu hadroddiad cyfarwyddwyr blynyddol sy'n ymgorffori'r adroddiad strategol, ynghyd â'r datganiadau ariannol o'r gweithgareddau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Awst 2020, sydd wedi'u paratoi hefyd i fodloni'r gofynion ar gyfer adroddiad cyfarwyddwyr a chyfrifon at ddibenion Tŷ'r Cwmnïau.

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â'r polisiau cyfrifyddu amlinellir yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol ac maent yn cydymffurfio â dogfen lywodraethu'r elusen, Deddf Cwmnïau 2006 a "Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o'r Arfer a Argymhellir sy'n gymwys i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2019".

Amcanion Elusennol

Amcanion elusennol WNO ydy "... hyrwyddo a chynorthwyo gyda datblygu addysg i'r graddau y byddai hyrwyddo a chynorthwyo o'r fath o natur elusennol ac yn benodol, i'r graddau bod hynny o natur elusennol, sicrhau a chynyddu gwerthfawrogiad a dealltwriaeth o'r gelfyddyd ddramatig yn ei holl ffurfiau yng Nghymru a mannau eraill." Daw'r geiriau hyn o Femorandwm Cymdeithasu WNO.

Gweledigaeth, Cenhadaeth a Gwerthoedd

Gweledigaeth WNO

Byd sydd wedi'i gyfoethogi a'i wneud yn gynhwysol drwy rym opera.

Cenhadaeth WNO

Mae WNO yn gwmni i bawb a bydd ein gwaith yn adlewyrchu'r gymdeithas yr ydym

yn byw ynddi. Rydym yn diddanu, yn herio ac yn ysbrydoli.

Rydym yn rhan annatod o fywyd diwylliannol ein cymunedau.

Rydym yn meithrin talent greadigol fel y gall opera ddatblygu a thyfu.

Fel Cwmni cenedlaethol â statws rhyngwladol, rydym wrth galon creu cerddoriaeth yng Nghymru ac yn chwarae rôl werthfawr yn y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu yn Lloegr. Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i ddarganfod a meithrin talent operatig ifanc, ac i ddarparu llwyfan i lansio gyrfaedd rhyngwladol. Mae teithio yn ein gwaed ac rydym yn ymdrechu i gyflwyno gwaith o'r radd flaenaf ar draws ein rhaglen artistig, gan ddiddanu ac ysbrydoli cynulleidfaoedd yn ein hoperau a'n cyngherddau a darparu profiadau trawsnewidiol drwy ein gwaith ieuenctid, cymuned a digidol. Gan ddatblygu ar ein hanes dros 70 mlynedd a'n gwreiddiau yng nghymunedau De Cymru, rydym am ddangos i genedlaethau'r dyfodol bod opera yn ffurf ar gelfyddyd sy'n rhoi boddhad, sy'n berthnasol ac sydd i bawb.

Gwerthoedd WNO

Rydym yn:

Gynhwysol – Mae gennym ddiwylliant yn y gweithle lle caiff pawb eu parchu a'u gwerthfawrogi.

Cydweithredol – Rydym yn gweithio fel tîm i gyflawni amcanion a rennir.

Deinamig - Rydym yn herio ein hunain yn greadigol ac yn annog syniadau newydd.

Hael - Mae ein pobl yn defnyddio'u talent, eu gwybodaeth a'u sgiliau gydag ysbryd hael.

Cyfrifol - Rydym yn gweithredu yn gywir ac mewn modd atebol.

Datganiad y Cadeirydd

Wrth ysgrifennu datganiad y Cadeirydd ar gyfer Adroddiad Ymddiriedolwyr 2018-19 ar ddechrau'r hyn y gwyddom erbyn hyn oedd yn ddechrau pandemig byd-eang Covid-19, prin y gallai unrhyw un ohonom ddychmygu y byddem, ddeuddeg mis yn ddiweddarach, yn dal i fod yng nghrafangau pandemig sydd wedi chwalu bywydau cymaint o bobl ac wedi newid y ffordd rydym yn ymwneud â'n gilydd am byth.

Does dim modd bwrw golwg yn ôl ar 2019-20 heb synnwyr o anghrediniaeth bod cynulleidfaoedd yn hydref 2019 yn mwynhau ein cynhyrchiad newydd o *Carmen* Bizet, a'r adfywiadau o *Rigoletto* Verdi a *The Cunning Little Vixen* Janáček, ac yn gadael y theatr gyda chynlluniau i ddychwelyd yn y gwanwyn, ac heb unrhyw syniad y byddai theatrau ledled y Deyrnas Unedig yn cael eu cau dros nos ym mis Mawrth 2020.

Roedd rhaglen gwanwyn 2020 yn cynnwys rhan olaf ein 'Trioled Verdi', *Les Vêpres Siciliennes*, ynghyd â *Phrydas Figaro* Mozart a pherfformiadau pellach o *Carmen* Verdi, ac fe gafwyd cynulleidfaoedd da iawn i'r perfformiadau cyn i'r daith gael ei therfynu mor sydyn. Roedd cau'r theatrau'n golygu bod chwe wythnos olaf y daith wedi'u canslo, a daeth terfyn sydyn ar ein bywyd gwaith arferol. Diolch i gefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Celfyddydau Lloegr, fodd bynnag, roedd modd i ni sicrhau bod ein pobl oll, yn gyflogedig ac yn llawrydd, yn cael eu talu'n llawn am y perfformiadau hynny a ganslwyd.

Roedd y gefnogaeth a barhaodd gan y Cyngorau Celfyddydau a'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws wedi'n galluogi ni i gefnogi'n pobl hefyd wrth i'r daith a oedd wedi'i chynllunio ar gyfer haf 2020 gael ei chanslo yn ddiweddarach.

Cafodd y rhan fwyaf o'n lluoedd perfformio eu rhoi ar ffyrlo ar ryw adeg yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Awst 2020 pan ddaeth hi'n amlwg y byddai cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol yn golygu y byddai'n amhosib cynnal ymarferion ar gyfer y daith a oedd wedi'i chynllunio ar gyfer hydref 2020. Ar yr un pryd, roedd rhaid i weddill ein pobl ddod i arfer â byd newydd gweithio o gartref a chofleidio technoleg er mwyn sicrhau bod y corff yn dal i weithredu.

Rwy'n hynod ddiolchgar i'n holl bobl am y ffordd y maent wedi ymateb i'r heriau digysail hyn ac am eu hymrwymiad i sicrhau bod WNO yn gallu addasu yn sgil yr argyfwng.

Wrth i'r haf fynd yn ei flaen, cafodd cynlluniau ar gyfer ailddechrau perfformio yn yr hydref eu gwneud ac wedyn eu rhoi heibio wrth i'r argyfwng waethygu.

O fethu â pherfformio i gynulleidfa fyw, daeth y gallu amryddawn sydd wedi galluogi WNO i ffynnu dros 75 mlynedd i'r amlwg eto ac fe drodd at ddarparu cynnwys digidol i gyrraedd cynulleidfaoedd hen a newydd. Fe agorodd Chwarae Opera fyd newydd i genhedlaeth iau, a rhoddodd perfformiadau WNO Gartref lwyfan i dalentau ein perfformwyr a chaniatáu iddynt weithio'n ddiogel o'u cartrefi eu hunain. O ganlyniad, cafwyd gweithiau anhygoel, gan gynnwys ein perfformiad Cymraeg o Gwahoddiad a'n cywaith gyda Luke Evans a arweiniodd at berfformiad trawiadol o *Who Wants to Live Forever?* Queen ar gyfer Pride Cymru. Un o'r achlysuron mwyaf teimladwy oedd perfformiad Opera leuencid WNO o *I Shall Not Live in Vain*, a oedd yn dipyn o gamp logistaidd, ac a ddaeth â phobl ifanc o rychwant eang o gefndiroedd ynghyd, gan ddangos i ni sut y gall y dyfodol fod yn gydweithredol, yn greadigol ac yn ffres. O safbwynt y darlun ehangach, daeth y gwaith oedd gennym ar y gweill gyda Chanolfan Oasis yn gywaith ar-lein ac esgorodd ar ffilm hynod deimladwy *A Song for the Future*, a chafodd ysgrifennwyr yr opera newydd, *Migrations*, a oedd i fod yn ganolbwynt i daith yr hydref, wahoddiad i greu darnau newydd i adlewyrchu celf a chymdeithas mewn cyfnod o argyfwng, Creu Newid.

Datganiad y Cadeirydd (parhad)

Gan ein bod yn gorff sydd â'n cartref yng Nghymru ac sydd yn teithio hefyd yn Lloegr, roedd rhaid i'n gwaith cynllunio ymgiprys â'r heriau o gael gwahanol setiau o gyfreithiau a chanllawiau yn cael eu ffurfio yn San Steffan a Chaerdydd. Trwy gydol hydref 2020, buom yn gweithio gyda Neuadd Dewi Sant yng Nghaerdydd i ymarfer gyda phellter cymdeithasol ac mewn modd diogel o ran Covid ac i recordio gwaith ar gyfer ei ryddhau yn y dyfodol, yn y gobaith y byddem yn gallu teithio gyda chynulleidfaoedd byw yng ngwanwyn 2021. Yn anffodus, gan fod cyfnodau clo a chyfyngiadau eraill wedi'u cyflwyno ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2020, cafodd y gobeithion hynny eu dryllio, a bu rhaid canslo'r daith a oedd wedi'i chynllunio ar gyfer gwanwyn 2021 hefyd.

Wrth i mi ysgrifennu hyn, mae WNO yn gobeithio y bydd perfformiadau awyr agored yn cael eu caniatáu yn haf 2021 ac rydym yn cynllunio ar gyfer ailddechrau perfformiadau dan do o hydref 2021. Unwaith eto, mae'r gwahaniaethau rhwng Cymru a Lloegr yn ychwanegu at y problemau logistaidd ac mae gan leoliadau yn y ddwy wlad safbwyntiau gwahanol ynglŷn ag ailagor i gynulleidfaoedd a'r trefniadau pellter cymdeithasol sydd eu hangen i gadw pobl yn ddiogel.

Heb amheuaeth, bu'r 18 mis diwethaf ymhlith y rhai anoddaf y mae WNO wedi'u hwynebu yn ei 75 mlynedd. Mae ei bobl wedi dangos gwytnwch rhyfeddol a theyrngarwch i'r cwmni a'r hyn y mae eisiau ei gyflawni. Er gwaethaf yr holl anawsterau a'r newidiadau a orfodwyd ar ein cynlluniau, mae ein bobl wedi cadw eu dyhead i berfformio ac i ddangos i'r byd bod ein gweledigaeth o fyd wedi'i gyfoethogi a'i wneud yn gynhwysol drwy rym opera yn rhywbeth gwerth ymdrech drosto.

Diolch yn fawr i bawb sydd wedi gweithio i a gyda WNO drwy'r amserau heriol hyn ac i'r rhai sydd wedi'n cefnogi ni mewn cymaint o ffyrdd. Mae fy nghyd-aelodau o'r Bwrdd, llawer ohonynt yn rhai a ymunodd â'r Bwrdd ym mis Hydref 2019 ac sydd mewn rhai achosion heb gwrdd eto wyneb-yn-wyneb â'i gilydd neu ag aelodau eraill o'r cwmni, wedi treulio oriau yn gweithio gyda'r tîm rheoli ac eraill nid yn unig i sicrhau bod y cwmni yn gallu goroesi'r heriau presennol, ond i sicrhau hefyd bod y dulliau newydd o weithio y cawsom ein gorfodi i'w mabwysiadu yn cael eu hymgorffori yn ein dyfodol. Bydd cyrraedd mwy o bobl a bod yn fwy hygyrch drwy ddefnyddio technoleg yn rhan annatod o esblygiad y cwmni wrth i ni ddod allan o'r pandemig.

Cafodd WNO ei ffurfio ym 1946 wrth i Brydain a'r byd ddod allan o gyfnod tywyll, a 75 mlynedd yn ddiweddarach, mae'r cwmni'n edrych ymlaen unwaith eto at godi hwyliau pobl gyda grym opera, a helpu i oleuo eu bywydau.

Yvette Vaughan Jones Cadeirydd

Adroddiad Strategol

1) Rheolaeth Strategol

Mae WNO yn gweithio i gynllun busnes treigl pum-mllynedd (ar gyfer y cyfnod yn yr adroddiad hwn, fersiwn 2017 - 2022) sy'n amlinellu pedwar nod cyffredinol ar gyfer y cyfnod cyfan a fydd yn galluogi'r cwmni i gyflawni ei ddiben a darparu ei genhadaeth. Dyma nhw:

Nod 1: Artistig - Gwneud opera'n fwy agored drwy ddulliau cyflwyno, cynnwys, arloesi a hygyrchedd

Nod 2: Incwm - Datgloi ein cyfalaf creadigol ac artistig er mwyn cynyddu ein llifoedd incwm

Nod 3: Cynulleidfa - Cynyddu ein cynulleidfaoedd a'u gwneud yn fwy amrywiol drwy greu bwrwlwm, cynyddu ymgysylltiad a dod yn rhywbeth na fydd pobl am ei fethu

Nod 4: Perthnasedd - Dod yn fwy perthnasol ac ysbrydoli perchnogaeth ledled Cymru, Lloegr ac yn rhyngwladol

Cynlluniwyd naw ffrwd o weithgareddau busnes er mwyn cyflawni'r nodau hyn ac mae'r gweithgareddau ar gyfer pob ffrwd yn 2019/20 yn cael eu disgrifio yn yr adran Perfformiad Busnes/Gweithgareddau Arwyddocaol. Y chwe ffrwd a oedd yn "wynebu tuag allan" oedd Cynnwys a Chyflwyniad Artistig, Cyrhaeddiad Daearyddol, Datblygu Talent, Cynulleidfaoedd ac Ymgysylltu, Newid Canfyddiadau'r Cyhoedd, a Gwneud y Gorau'n Fasnachol (a ailenydd erbyn hyn yn "Cynhyrchu Incwm").

Roedd tair ffrwd arall o waith yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd y sefydliad o ran darparu'r gweithgareddau - Capasiti a Diwylliant y Sefydliad, Cyllid, a'r Bwrdd.

Mae model busnes WNO yn seiliedig ar ddarparu rhychwant eang o brofiadau operatig a cherddorol ledled Cymru a Lloegr ac yn rhyngwladol. Mae'r gweithgareddau hyn yn amrywio o operâu llawn prif raddfa wedi'u cyflwyno mewn theatrau lyric mawr (rhwng 1,100 a 2,500 o seddi), opera ar raddfa ganolog a bach, cyngherddau a gweithgaredd digidol i gymunedau amrywiol iawn a gwaith maes sy'n cynnwys digwyddiadau ar raddfa lai i gyfranogwyr. Gan fod y rhan fwyaf o'n hincwm (70% yn 2019/20 oherwydd effaith Covid-19, 57% yn 2018/19) yn dod o gyllid cyhoeddus, trwy Gyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Celfyddydau Lloegr, mae ein cynllunio busnes yn gyson â nodau a chynlluniau corfforaethol y cyrff hynny, gan eu bod yn dibynnu ar eu sefydliadau portffolio i'w helpu i gyflawni'r cylchoedd gorchwyl sydd wedi'u rhoi iddynt gan lywodraethau Cymru a'r Deyrnas Unedig yn eu tro. Un o'r heriau i ni ydy sicrhau cydbwysedd addas rhwng gweithgaredd yng Nghymru ac yn Lloegr.

Mae ein cyllid craidd yn ein helpu i gynnal cerddorfa llawn-amser a chorws llawn-amser, ac ynghyd â'r swyddogaethau technegol, mae hynny'n ein galluogi i lwyfannu'n hoperau prif raddfa i'r safon uchaf. Ychwanegir at yr incwm hwn drwy werthiant tocynnau, codi arian, a rhywfaint o weithgaredd masnachol, gan gynnwys teithio'n rhyngwladol.

Mae opera prif raddfa yn ddud i'w lwyfannu – nid yw gwerthiant tocynnau yn dod yn agos at dalu costau cynhyrchu – ac yn hanesyddol, dyma ble'r aeth y rhan fwyaf o wariant WNO. Mae'r penderfyniad rhagweithiol fel rhan o'n cynllun busnes cyfredol i gynyddu gweithgareddau gwaith maes ac ymgysylltu cymunedol ein sefydliad wedi arwain at gyfeirio rhagor o gyllid i'r maes hwn. Mae hyn yn agwedd bwysig ar ein gwaith sy'n ein galluogi i wneud gwir wahaniaeth i fywydau pobl - gan gynyddu hunan-hyder, goresgyn unigedd a meithrin lles fel tair enghraifft yn unig. Dros y tymor hir, yn ogystal â'n galluogi i ddatblygu cynulleidfaoedd mwy amrywiol y dyfodol, mae'n ein cynorthwyo gyda'n dyhead i ddefnyddio gwir rym opera i gyfoethogi'r byd, i fod yn fwy cynhwysol, i feithrin mwy o dalent creadigol, i ysbrydoli ac i herio pobl ynglŷn â'r byd o'u cwrmpas ac i fod yn rhan hanfodol o fywyd diwylliannol ein cymunedau.

Prif nod ariannol ein cynllun busnes pum-mllynedd ydy cynyddu cynaliadwyedd y sefydliad drwy ddod yn fwy effeithlon ac effeithiol, a thrwy gynyddu ein ffrydiau incwm ein hunain er mwyn i WNO fod yn llai dibynnol ar gyllid cyhoeddus yn y dyfodol. Roeddem yn anelu at leihau ein dibyniaeth ar gyllid cyhoeddus o 5% dros bum mllynedd ein cynllun busnes, ond mae pandemig Covid-19 wedi'n rhwystro rhag cyflawni'r amcan hwnnw

Adroddiad Strategol

2) Amgylchedd Busnes

Ffactorau Allanol

Yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20, datganodd Sefydliad Iechyd y Byd ar 11 Mawrth 2020 bod yr achosion o'r coronafeirws (Covid-19) yn bandemig byd-eang ac yn fuan wedi'r cyhoeddiad hwnnw, caewyd pob lleoliad ledled y Deyrnas Unedig ar unwaith. Arweiniodd hyn at ganslo chwe wythnos olaf taith gwanwyn 2020 ac wedi i fesurau cadw pellter cymdeithasol gael eu gorfodi, rhoddwyd y gorau i ymarferion ar gyfer taith yr haf ac fe ganslwyd y daith honno yn ddiweddarach. Wrth i'r pandemig barhau trwy fisoedd yr haf a thuag at ddiwedd y flwyddyn galendr, bu rhaid canslo taith hydref 2020/21 ac ailgynllunio'r gweithgareddau a oedd wedi'u cynllunio ar gyfer gwanwyn a haf 2020/21. Ym mis Ionawr 2021, gyda'r pandemig yn parhau i achosi problemau a'r Deyrnas Unedig mewn cyfnod clo, canslwyd y gweithgareddau a oedd wedi'u cynllunio ar gyfer gwanwyn 2021 hefyd.

Ochr yn ochr â'r pandemig byd-eang, mae Brexit yn parhau i fwrw amheuaeth dros y berthynas â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol ac yn enwedig dros drefniadau teithio wedi 31^{ain} Rhagfyr 2020, ac mae hynny'n sicr o gael effaith ar symudiad artistiaid gwadd i mewn ac allan o'r Deyrnas Unedig, yn ogystal ag ar gynlluniau ar gyfer teithio dramor yn y dyfodol.

Rheoli Risg

Caiff cofrestr risgiau strategol y sefydliad ei adolygu ddwywaith y flwyddyn gan yr Uwch Dîm Rheoli. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn ei adolygu hefyd ddwywaith y flwyddyn a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn gwneud yn flynyddol. Gellir gweld manylion yr holl risgiau strategol a'r mesurau lliniaru yn adran yr Adroddiad Strategol ar dudalen 15.

O ganlyniad i adolygiad y Pwyllgor Archwilio a Risg, ychwanegwyd risgiau strategol ychwanegol at y rhestr, sy'n gysylltiedig â'r risgiau sy'n ymwneud â phobl y mae'r sefydliad yn eu hwynebu, megis cael staff ac artistiaid sydd â digon o sgiliau ac ymrwymiad. Yn gysylltiedig â'r risgiau sy'n ymwneud â phobl, mae'r heriau a ddaw o gael tri chytundeb torfol ar wahân yn eu lle, sy'n effeithio'n bennaf ar aelodau'r gerddorfa, y corws a'r tîm technegol.

Yn wyneb y pandemig byd-eang, mae is-set o risgiau sy'n delio ag effeithiau feirws Covid-19 wedi'i datblygu ac yn cael ei hadolygu'n rheolaidd.

Brexit: Mae hyn yn parhau'n achos pryder i'r sefydliad gan ein bod yn debygol o deimlo effeithiau gadael yr Undeb Ewropeaidd mewn tri maes: yn gyntaf, pa mor hawdd y gallwn gludo a chasglu cynyrchiadau (e.e. setiau/gwisgoedd) o dai opera Ewropeaidd; yn ail, sicrhau gwasanaeth – a hynny ar rybudd byr iawn weithiau – prif gantorion/arweinwyr o'r Undeb Ewropeaidd; yn drydydd, yr effaith y gallai ei chael ar ein haelodau o staff o'r Undeb Ewropeaidd nad ydynt yn ddinasyddion y Deyrnas Unedig.

Gall yr ymddiriedolwyr gadarnhau na fu unrhyw Ddigwyddiadau Difrifol y dylid eu hadrodd yn ystod y cyfnod hwn ac maent yn ymwybodol o'r canllawiau newydd a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau ynglŷn â diogelu, llywodraethu, ymdrin â chwynion, ymgysylltu â staff ac ymddiriedaeth y cyhoedd mewn elusennau.

Adroddiad Strategol

Rheoli Risg

Risgiau strategol

Yn ychwanegol at y risgiau sy'n ymwneud â phobl, gellir rhannu'r risgiau strategol sy'n effeithio ar y sefydliad yn ddau grŵp - y rhai sy'n ymwneud â sefydlogrwydd a chynaliadwyedd ariannol, megis pwysau ar incwm o werthiant tocynnau, incwm o godi arian, incwm masnachol ac asedau/(rhwymedigaethau) cynlluniau pensiwn a'r rhai sy'n ymwneud â safon artistig yr allbwn a materion a allai beri niwed i enw da'r sefydliad.

1) Perfformiad Busnes

Yn yr un modd â'r flwyddyn ariannol flaenorol, roedd perfformiad busnes WNO yn seiliedig ar y naw ffrwd o weithgareddau a amlinellir isod, a fydd gyda'i gilydd yn cyflawni'r pedwar Nod a osodwyd yn yr adran Rheolaeth Strategol (tudalen 5). Gyda'r flwyddyn yn dod i ben ar 31^{ain} Awst, daeth pandemig Covid-19 hanner ffordd trwy flwyddyn ariannol y sefydliad, felly dylid bod yn ofalus wrth gymharu gyda 2018/19 oherwydd nad yw'n fater o gymharu tebyg â thebyg. Fel y crybwyllwyd eisoes, pan gaewyd holl theatrau'r Deyrnas Unedig ar 16 Mawrth 2020, daeth taith gwanwyn 2020 i ben yn gynnar a bu rhaid canslo'r cynlluniau ar gyfer tymor haf 2020. Roedd canslo taith y gwanwyn yn golygu na fuom ni yn Southampton, Lerpwl, Milton Keynes, Plymouth, Norwich a Birmingham fel y bwriadwyd.

Ffrwd 1: Cynnwys a Chyflwyniadau Artistig

Prif Raddfa

Llwyfannwyd tair opera yn hydref 2019 – cynhyrchiad newydd o *Carmen*, *Rigoletto* Verdi a *The Cunning Little Vixen* gan Janacek. Cafodd y cynhyrchiad newydd o *Carmen*, a gyfarwyddwyd gan Jo Davies, ei weld gan gynulleidfa o 15,631, sef 98% o'r targed o 15,954. Cyfanswm y gynulleidfa ar gyfer tymor yr hydref oedd 33,498, sef 92% o'r targed, roedd niferoedd y gynulleidfa yng Nghaerdydd yn uwch na'r hyn a ragwelwyd - 104% o'r targed, tra roedd niferoedd y gynulleidfa ar draws y lleoliadau eraill ychydig is na'r disgwyliadau yn gyffredinol.

Roedd rhaglen gwanwyn 2020 yn cynnwys rhan olaf ein 'Trioleg Verdi', *Vêpres Siciliennes*, ynghyd â *Phrydas Figaro* Mozart a pherfformiadau pellach o *Carmen* Verdi. Gan fod 6 wythnos olaf tymor y gwanwyn wedi'u canslo, mae'n anodd cymharu'r tymor gyda'r hydref ac mae'n amhosib cymharu â'r disgwyliadau cyffredinol. Yn dilyn y llwyddiant a gafodd yn yr hydref, cafodd y 5 perfformiad o *Carmen* y bu modd eu cynnal gynulleidfaoedd gwell na'r disgwyl, gan gyrraedd 117% o'r targed. Yn yr un modd, cafodd y 5 perfformiad o *Vêpres Siciliennes* fwy o gynulleidfa na'r disgwyl, sef 108% o'r targed. Gwnaeth y 7 perfformiad o *Briodas Figaro* yn well na'r disgwyl hefyd, gan gyrraedd 103% o'r targed. Yr awgrym felly, oedd bod tymor y gwanwyn yn denu cynulleidfaoedd da ac oni bai am Covid-19, gallai fod wedi mynd y tu hwnt i'r disgwyliadau ac adfer y rhan fwyaf o'r diffyg incwm o'r hydref.

Roedd rhaglen haf 2020 i fod i gynnwys *The Barber of Seville* gan Mozart a sioe ddwbl *The Nightingale* Stravinsky gyda *Bluebeard's castle* Bartok, ond yn anffodus, ni chyrrhaeddodd yr un o'r perfformiadau hyn y llwyfan. Y bwriad oedd cal perfformiadau pellach o *The Barber of Seville* yn hydref 2020, ond gan fod argyfwng Covid-19 wedi parhau, cafodd y rhaglen a oedd wedi'i chynllunio ar gyfer tymor hydref 2020 ei chanslo hefyd, a thymor gwanwyn 2021 yn yr un modd.

Mae Cerddorfa WNO yn parhau i berfformio nifer sylweddol o gyngherddau; mae perfformio ar y llwyfan yn hytrach nag yn y pwll yn rhoi cyfle gwerthfawr i'n cerddorion cerddorfaol ddatblygu drwy fynd i'r afael â repertoire anoddach gyda'n Cyfarwyddwr Cerdd, Tomáš Hanus, ac arweinwyr mawr eraill. Yn hydref 2019, dychwelodd Cerddorfa WNO i Gyfres Cyngherddau Rhyngwladol Neuadd Dewi Sant dan arweiniad y Cyfarwyddwr Cerdd, Tomáš Hanus, gyda noson gyfareddol o gerddoriaeth gan Smetana, Debussy a Dvorak.

Adroddiad Strategol

I ddathlu 250 mlynedd o Beethoven, ymunodd Cerddorfa WNO – dan arweiniad Carlo Rizzi â Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC a Chorws Cenedlaethol Cymreig y BBC i ail-greu'r Cyngerdd hanesyddol er budd Beethoven o 1808. Daeth yr ail-gread bendigedig hwn â chyfoeth o dalent ryngwladol ynghyd i gyflwyno rhai o weithiau mwyaf eiconig Beethoven, gan gynnwys y bumed a'r chweched symffoni a'r pedwerydd concerto i'r piano.

Ym mis Rhagfyr 2019, cafodd Cerddorfa WNO wahoddiad gan Lysgennad ei Mawrhydi i Frenhiniaeth Moroco i roi dau gyngerdd yn y brifddinas, Rabat. Cafodd y cyngerdd cyntaf, fersiwn gryno o'n cyfres gyngherddau Taith i Vienna, ei berfformio yn yr Academi Frenhinol, a chynhaliwyd yr ail gyngerdd - Noson o Opera Eidalaidd - yn y Theatr Genedlaethol dan arweiniad Carlo Rizzi gyda Mary Elizabeth Williams a Gwyn Hughes Jones yn perfformio.

Ym mis Ionawr 2020, ailadroddodd Cerddorfa WNO – ynghyd â'r soprano Mary Elizabeth Williams – eu taith gyngherddau lwyddiannus gyda cherddoriaeth gan Offenbach a Strauss a'u tebyg, wedi eu curadu i gludo'r cynulleidfaoedd i neuaddau dawn Vienna'r ddeunawfed ganrif.

Er nad yw'r trosiant yn ein cerddorfa a'n corws llawn-amser ddim yn uchel iawn, rydym yn ymwybodol hefyd bod angen i ni wneud ein gorau i sicrhau ein bod yn recriwtio cerddorion a chantorion talentog o gefndiroedd amrywiol.

Crëwyd ein cynllun Arweinydd Preswyl newydd er mwyn darparu cyfleoedd datblygu a pherfformio gwell i arweinwyr benywaidd ar ddechrau eu gyrfa. Gweithiodd Arweinydd Preswyl eleni, Tianyi Lu ochr yn ochr â thimau creadigol WNO yn ystod yr ymarferion ar gyfer ein cynyrchiadau yn yr hydref o *Carmen*, *Rigoletto* a *The Cunning Little Vixen*. Roedd Tianyi yn mynd i arwain dau berfformiad o *Carmen* yn ystod ein taith yng ngwanwyn 2020, ond yn anffodus, cafodd y rheiny eu canslo oherwydd Covid-19.

Darparodd adran Rhaglenni ac Ymgysylltu WNO (a elwid gynt yn Adran Ieuencid a Chymuned) weithdai creu cerddoriaeth yn rheolaidd i 70 o ysgolion ar draws ein pedwar rhanbarth craidd yn Ne Cymru, Gogledd Cymru, Gorllewin Canolbarth Lloegr ac Arfordir De Lloegr.

Rydym yn cynnal pum grŵp Opera Ieuencid mewn tri o'n rhanbarthau teithio yn Ne Cymru, Gogledd Cymru a Gorllewin Canolbarth Lloegr. Mae pob un o'r grwpiau yn darparu sesiynau wythnosol i bobl ifanc rhwng 8 ac 18 oed sy'n helpu i ddatblygu eu sgiliau canu a pherfformio, gan weithio tuag at gynnal cyngherddau, perfformiadau arddangos a chynyrchiadau opera bob blwyddyn.

Fe wnaethom ddarparu sesiynau cerddoriaeth y blynyddoedd cynnar i deuluoedd ffoaduriaid yn St Chad's Sanctuary, Birmingham. Buom yn gweithio gyda disgyblion sydd ag anawsterau dysgu dwys a lluosog i baratoi ar gyfer cyngerdd rhannu arbennig gyda'u rhieni, eu hathrawon a'u gweithwyr cymorth.

Yn Aberdaugleddau, daethom â phobl o'r gymuned leol sy'n byw gyda dementia ynghyd i gymryd rhan mewn ymarferion côr wythnosol.

Tra bu Cerddorfa WNO yn perfformio mewn cyngerdd ym Moroco, bu'r Adran Rhaglenni ac Ymgysylltu ynghyd ag ensemble bach o'r Gerddorfa yn cynnal dau weithdy cerddoriaeth i blant Ysgol Elfennol Abdelmoumen. Teithiodd y tîm i Dubai hefyd i gynnal gweithdai i ysgolion yn ymdrin ag opera, adrodd straeon, cyfansoddi a cherddoriaeth glasurol.

Ffrwd 2: Cyrhaeddiad Daearyddol

Mae teithio yn ein DNA ac rydym yn arbenigwyr yn y maes ac yn 2019/20, fe wnaethom ymweld â 36 o leoliadau ar deithiau. Ar gyfer ein hoperau prif raddfa, ar gyfer teithiau'r hydref a'r gwanwyn, rydym yn ymarfer ein cynyrchiadau dros bum neu chwe wythnos yn ein cartref yng Nghanolfan Mileniwm Cymru - yma mae ein prif lwyfan hefyd - ac wedyn rydym yn rhoi pythefnos o berfformiadau

Adroddiad Strategol

yno, cyn pacio'r setiau i mewn i'n fflyd o drelars a mynd â nhw o gwmpas y wlad. Eleni – fel yn y blynyddoedd blaenorol – aeth y daith prif raddfa at ein partneriaid yn lleoliadau rheolaidd ein teithiau: Hippodrome Birmingham, Mayflower Southampton, Venue Cymru Llandudno, Hippodrome Bryste, Theatre Royal Plymouth, Empire Lerpwl, New Theatre Rhydychen a Theatr Milton Keynes.

Gwnaethom ymdrech i gyrraedd rhagor o leoliadau yng Nghymru ac yn Lloegr gyda'n teithiau cerddorfaol, ac fe lwyddom yn hynny o beth. Ymhlith y trefi a'r dinasoedd ychwanegol a gafodd ymweliad drwy'r gwaith hwn, roedd Bangor, Bryste, Caerdydd, Casnewydd, Y Drenewydd, Tyddewi ac Abertawe.

Mae gwaith y tu allan i'r Deyrnas Unedig yn dod yn rhan fwy arwyddocaol o strategaeth WNO. Rydym yn gweld y gallwn gael ffioedd masnachol am ein gwaith ac ar yr un pryd, fel un o'r brandiau sy'n cario'r faner dros Gymru, rydym yn gallu cynrychioli Cymru yn y byd ehangach, sy'n flaenoriaeth gynyddol bwysig i Lywodraeth Cymru.

Ffrwd 3: Datblygu Talent

Wrth i WNO nesu at ei ben-blwydd yn 75 oed, mae'r Cwmni yn bwriadu tynnu'r rhaglen datblygu talent presennol at ei gilydd a'i hehangu, gan gadarnhau'r ymrwymiad i ganfod, meithrin a datblygu talent ar draws y Cwmni i gyd, ac annog cyfranogiad ac ymgysylltu gyda'r Cwmni i rai o gefndiroedd amrywiol.

Mae ymrwymiad i gyfle cyfartal yn ganolog i bob menter a bydd wrth galon y rhaglen yn ei chyfanrwydd.

Bob blwyddyn, mae rhaglen Artistiaid Cysylltiol WNO yn cynnig cyfle arbennig i gantorion ifanc o safon eithriadol i fireinio eu sgiliau gyda thiwtoriaid arbenigol a chyfleoedd i ddirprwyo mewn rolau ac i berfformio gyda'r Cwmni drwy gydol y flwyddyn. Wedi rhediad disglair o berfformiadau ledled y Deyrnas Unedig fel Norina yn Don Pasquale WNO yn haf 2019, parhaodd Harriet Eyley i syfrdanu cynulleidfaoedd yn nhymor 2019/20 drwy ei hymddangosiadau mewn operâu a chyngherddau gyda'r Cwmni.

Dyfarnwyd swydd Arweinydd Cysylltiol eleni i Harry Ogg yn dilyn ei berfformiadau yn rownd derfynol Cystadleuaeth Arwain Donatella Flick LSO. Mae swydd breswyl Arweinydd Cysylltiol yn darparu cyfleoedd ymarfer a pherfformio drwy gydol y flwyddyn i ymarferwyr proffesiynol ar ddechrau eu gyrfa, yn ogystal â mentora rheolaidd gyda Chyfarwyddwr Cerdd WNO, Tomáš Hanus.

Ffrwd 4: Cynulleidfaoedd ac Ymgysylltu

Chwaraeodd ein taith prif raddfa yn yr hydref a'r daith a gwtogwyd yn y gwanwyn i gyfanswm o 55,011 o aelodau cynulleidfa dros 49 o berfformiadau. Am resymau amlwg, roedd hyn yn sylweddol llai na'r cyfanswm o 69,934 dros 65 o berfformiadau yn 2018/19, ond roedd cynnydd yn y presenoldeb ar gyfartaledd o 1,076 i 1,123 fesul perfformiad.

Adroddiad Strategol

Ffrwd 5: Newid Canfyddiad y Cyhoedd

Mae'r ffrwd hon yn ein cynllun busnes yn cydnabod bod gan opera broblem o ran canfyddiad ac rydym yn mynd i'r afael â hynny mewn nifer o ffyrdd. Yn 2018/19, dechreuodd WNO ar bartneriaeth pum-mllynedd gyda Chyngor Ffoaduriaid Cymru. Ein nod ydy datblygu prosiectau ar y cyd gyda phartneriaid mewn mudiadau ffoaduriaid a cheiswyr lloches lleol; creu cyfleoedd newydd i gerddorion ac artistiaid yn y gymuned hon i ddatblygu ac arddangos eu gwaith; a chreu gwaith sy'n gwbl gynrychioladol o'r cymunedau amrywiol rydym yn eu gwasanaethu.

Fel sefydliad celfyddydol cenedlaethol sy'n ymateb i her y normal newydd ond sydd yn dal i fethu â pherfformio gweithiau byw mewn theatrau, mae'n fwy amlwg nag erioed i Opera Cenedlaethol Cymru bod dwyn artistiaid a syniadau ynghyd drwy ryddid mynegiant yn ein helpu i wneud synnwyr o fyd ansefydlog. Mae 'Creu Newid' yn sgwrs artistig o'r fath, ble mae ysgrifennwyr, cyfansoddwyr, cantorion a cherddorion yn dathlu rôl y celfyddydau yn ailddychmygu dyfodol ble ceir newid cymdeithasol parhaol.

Wedi'i gydgyhyrchu o bell yn ystod y cyfnod clo, *A Song for the Future* oedd ail bartneriaeth Opera Cenedlaethol Cymru gydag Oasis Caerdydd. Cafodd yr opera newydd sbon hon ei chyd-greu gan y Cyfansoddwr Boff Whalley, yr Ysgrifennwr Sarah Woods a chwech o ysgrifennwyr a cherddorion (sydd hefyd yn perfformio) sydd wedi ceisio lloches yn y Deyrnas Unedig. Mae'n opera am anghydraddoldeb, sy'n delio â'r teimlad o fod ar y tu allan. Mae'n alwad i weithredu ynglŷn â'r angen i ailymgynnull, i ail-greu'r cysylltiadau rhyngom er mwyn dod ynghyd.

Mewn byd sydd wedi dod i stop yn sydyn, ffoadur sydd newydd gyrraedd ydy Zana ac mae'n ceisio gwneud synnwyr nid yn unig o'r hyn y mae hi'n mynd trwyddo, ond o'r byd rydym wedi ei greu. Caiff stori Zana ei hadrodd drwy gân, cerddoriaeth, a'r gair llafar wrth i ni ystyried gobeithion, ofnau a breuddwydion wrth geisio dyfodol newydd.

Rydym yn gwybod, trwy ein gwaith maes ac ymgysylltu, bod pobl yn gallu ymgysylltu'n frwdfrydig ac yn rhwydd gyda'r ffurf hon o gelfyddyd pan fyddant yn cael eu cyflwyno iddi mewn ffyrdd sy'n berthnasol iddyn nhw. Felly, rydym wedi buddsoddi'n gynyddol yn ein rhaglenni a'n gwaith ymgysylltu ac rydym wedi cytuno'n benodol gyda Chyngor Celfyddydau Lloegr y byddwn yn ehangu ein rhaglen i dair ardal "hyb" allweddol yn Lloegr, h.y. Gorllewin Canolbarth Lloegr, Plymouth a Southampton.

Mae Opera a Cherddoriaeth Glasurol ymhlith yr arfau gorau sydd ar gael i helpu i sbarduno dychymyg a chreadigrwydd ymhlith pobl ifanc ac maent yn gatalyddion gwych i ddysgu sy'n ennyn diddordeb yn y dosbarth.

Mae WNO yn cynnig cyfres o adnoddau i gynorthwyo athrawon ac addysgwyr, yn ogystal â gweithdai canu, cerddoriaeth a digidol (mewn realiti rhithwir/realiti estynedig ac animeiddio digidol) mewn ysgolion. Caiff y gweithdai eu harwain gan ein staff proffesiynol sy'n gantorian opera, yn gerddorion cerddorfaol ac yn animateurs, ac mae modd eu teilwra i anghenion ysgolion neu AAAA o Gyfnod Allweddol 1 hyd at 4.

Fe wnaethom barhau i ddatblygu ein gwaith ym maes ieched a lles, gan ddarparu sesiynau Dewch i Ganu wythnosol yn Ysbyty Prifysgol Cymru a'n dangosiadau sinema dementia-gyfeillgar gyda Theatr Colwyn a Pontio. Yn ogystal, buom yn peilota ein prosiect newydd yn Abertawe, Cysur, sy'n brosiect celfyddydau creadigol sy'n pontio'r cenedlaethau gyda'r bwriad o gynyddu ymwybyddiaeth o ddementia ymhlith pobl ifanc a darparu lle i'r rhai y mae dementia'n effeithio arnynt i dreulio amser o ansawdd gyda ffrindiau a'r teulu trwy gân.

Adroddiad Strategol

Ffrwd 6: Cynhyrchu Incwm

Rydym yn parhau i anelu at gynyddu ein ffynonellau incwm masnachol fel rhan o'n strategaeth ariannol i ddod yn fwy cynaliadwy drwy ddibynnu llai ar gyllid cyhoeddus; fodd bynnag, mae'r pandemig wedi'n gorfodi i adolygu'r amserlen ar gyfer y cynlluniau hyn.

Roedd cyfanswm y cyfraniadau a'r rhoddion mewn ewyllysiau ar gyfer y flwyddyn yn £1.05 miliwn, o gymharu â £2.4 miliwn yn 2018/19 ac rydym yn ddiolchgar am haelioni ein prif gyfranwyr a'r Ymddiriedolaethau a Sefydliadau sy'n cefnogi ein gwaith.

Rydym yn parhau i ennill incwm masnachol drwy Wasanaethau Theatrïg Caerdydd (CTS) er bod y gwasanaethau hynny wedi lleihau'n ddifrifol hefyd yn sgil cau theatrau a lleoliadau eraill. Mae hurio setiau yn dod â rhywfaint o incwm hefyd er bod y ffynhonnell hon braidd yn anwadal.

Ffrwd 7 - Capasiti a Diwylliant y Sefydliad

Er mwyn dod yn sefydliad mwy effeithlon ac effeithiol, mae angen i'r Cwmni wneud newidiadau sylweddol i'r ffordd y mae'n gweithio. Mae nifer o ffrydiau gweithgaredd ar y gweill er mwyn creu newid:

Mae system gynllunio integredig newydd wrthi'n cael ei chyflwyno, gyda'r bwriad o ehangu ein gorwelion wrth gynllunio a dod â'r holl elfennau sydd eu hangen ar gyfer cynllunio a chyflawni pob gweithgaredd ynghyd mewn un man. Y system hon a'r newidiadau mewn prosesau sy'n gysylltiedig â hi fydd asgwrn cefn y gwaith yn y dyfodol.

Mae WNO Wedi bod yn datblygu prosesau Adnoddau Dynol mwy proffesiynol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf a dewiswyd system AD a chyflogres integredig newydd yn ystod 2019/20 a fydd yn cael ei rhoi ar waith yn ystod 2020/21.

Mae WNO yn cydnabod tri undeb: mae angen i ni adolygu ein cydgytundebau â nhw wrth i'r sefydliad edrych am ffyrdd o ddod yn fwy effeithlon ac effeithiol yn y defnydd o'i ased fwyaf, sef ei bobl. Mae'r cyfnodau clo a'r esblygiad yn y ffordd rydym yn darparu ein gwaith wedi arwain at ail-werthuso sut y gellid cyflawni ein gwaith yn y dyfodol a'r ffordd orau o gydysod ein pobl â chyflawni'r canlyniadau rydym am eu sicrhau.

Mae cynyddu amrywiaeth yn ein gweithlu yn fater o bwys y mae angen i ni weithio arno, ac fe sefydlon ni waelodlin yn ystod 2018/19 gydag arolwg ciplun amrywiaeth. Dangosodd yr arolwg hwn fod gennym weithlu sy'n arwyddocaol hŷn nag unrhyw un o Sefydliadau Portffolio eraill Cyngor Celfyddydau Lloegr, ac sy'n llai amrywiol na llawer.

Adroddiad Strategol

Ffrwd 8: Cyllid

Mae pandemig Covid-19 sy'n parhau wedi cael effaith sylweddol ar gyllid y sefydliad, yn 2019/20 ac yn 2020/21. Mae cau drysau holl theatrau'r Deyrnas Unedig a'r cyfyngiadau ar berfformiadau awyr agored wedi pontio dwy flwyddyn ariannol, felly dylid bod yn ofalus gydag unrhyw gymariaethau gyda 2018/19 gan fod graddfa'r holl waith wedi'i leihau'n sylweddol. Gan mai cwmni opera teithiol ac nid perchennog a gweithredwr lleoliad ydy'r sefydliad, mae wedi cael ei gysgodi rhag effaith ariannol uniongyrchol cau canolfannau ac mae lefel y cyllid grant a dderbyniwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Celfyddydau Lloegr wedi'n galluogi ni i barhau i gefnogi'n pobl drwy'r cyfnod anodd hwn.

Oherwydd yr ansicrwydd ynglŷn â phryd y bydd canolfannau'n cael ailagor, bu rhaid modelu nifer o senarios I gwmpasu ystod o opsiynau a bydd y gwaith modelu hwnnw'n parhau tra bydd yr ansicrwydd yn dal yno.

Ffrwd 9: Y Bwrdd

Roedd disgwyl i Fwrdd WNO gyfarfod chwe gwaith yn ystod 2019/20, ond cynyddwyd nifer y cyfarfodydd i wyth gan fod y Bwrdd wedi cyfarfod yn amlach ers dechrau Covid-19 er mwyn ystyried goblygiadau'r sefyllfa a oedd yn esblygu. Ym mis Gorffennaf 2017, comisiynodd y Bwrdd Archwiliad Sgiliau ac Amrywiaeth a adroddodd ym mis Medi 2017 ac Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd a adroddodd ym mis Rhagfyr 2017. Dangosodd yr awdit Sgiliau mai'r bylchau oedd arbenigedd opera, cynulleidfaoedd/digidol a chodi arian. Dangosodd yr archwiliad amrywiaeth bod Bwrdd WNO yn brin o ymddiriedolwyr a oedd yn fenywod ac o bobl o gefndir BAME a phobl ag anabledd.

Ym mis Chwefror 2019, penodwyd tri ymddiriedolwr newydd a oedd yn cyfateb i'r rolau arbenigedd opera a chynulleidfaoedd/digidol; penodwyd chwe ymddiriedolwr pellach ym mis Hydref 2019 a chafwyd un ymddiswyddiad pellach ar ddiwedd trydydd tymor; gellir gweld y manylion yn y nodyn am Gyfarwyddwyr a Swyddogion ar dudalen 51 yr adroddiad hwn. Cafodd yr holl benodiadau eu gwneud yn dilyn proses recriwtio a dethol agored a thryloyw, a oedd yn cynnwys defnyddio hysbysebu ac arbenigwyr recriwtio a dethol.

Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd yn adolygu ein saith DPA cyffredinol ddwywaith y flwyddyn, ond mae angen dyfeisio dangosfwrdd llawnach o ddangosyddion perfformiad ar gyfer gweddill cyfnod y cynllun busnes.

Cydweithio

Mae WNO yng nghanol y gymuned gelfyddydol ar draws ein rhanbarthau teithio. Yn 2019/20, buom yn gweithio gyda nifer o sefydliadau celfyddydol er mwyn cyrraedd rhagor o bobl a gwneud yr achos dros y celfyddydau. Mae ein perthynas gyda chwmnïau opera eraill yn rhyngwladol yn ein helpu i lwyfannu opera rhagorol.

Yn ystod 2019/20, buom yn cydweithio gyda:

- Scottish Opera – *The Cunning Little Vixen*
- Theatre Bonn - *Vepraes Siciliennes*
- Canolfan Oasis Caerdydd – *A song for the future*
- Cerddorfa Genedlaethol Gymreig a Chorws Cenedlaethol Cymreig y BBC – Beethoven 250

Mae gennym rôl arweiniol hefyd yn y cydweithio a geir rhwng Cwmnïau Celfyddydol Cenedlaethol Cymru.

Adroddiad Strategol

Is-gwmnïau

Mae gan WNO ddau is-gwmni sydd dan ei berchenogaeth lawn. Rhoddir manylion y ddau yn nodyn 18.

Cafodd **Cardiff Theatrical Services Limited** ei sefydlu ym 1984 fel gweithdy mewnol i WNO ac mae ganddo enw da am adeiladu golygfeydd o ansawdd rhagorol i rai o brif gwmnïau celfyddydau perfformio'r byd, i atyniadau ymwelwyr ac i arddangosfeydd.

Yn ystod 2019/20, darparodd CTS wasanaethau i nifer o wahanol sefydliadau gan gynnwys:

Cwmni Theatr Almeida, ATG Productions Ltd, Cameron Mackintosh, Chichester Festival Theatre, Opera Cenedlaethol Lloegr, Houston Grand Opera, Good Chance Theatre, Glyndebourne Festival Opera, Kiln Theatre, Leicester Theatre Trust, Lyric Opera Chicago, Mint Motion, MM! The Party Ltd, Music Theatre Wales, Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru, National Theatre, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Nick Grace Management Ltd, Northampton Theatre Trust Ltd, Opera North, Oxford Playhouse, Playful UK Ltd, PW Productions, Pyramid Theatre Productions PLC, QDOS Entertainment, Rainbow Valley Productions, Really Useful Group Ltd, Redbridge Drama Centre, y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol, Royal Opera House, Royal Shakespeare Company, Rydell Productions Ltd, SFP Shows Ltd, Sheffield Theatres, Teen Angel Productions, The Bridge Theatre, Canolfan Mileniwm Cymru.

Cafodd **WNO Productions Limited** ei sefydlu yn 2014 i greu a pharatoi cynyrchiadau theatrig i Grŵp cwmnïau Opera Cenedlaethol Cymru.

Budd cyhoeddus

Mae buddion cyhoeddus Opera Cenedlaethol Cymru yn cael sylw yn ei weledigaeth a'i werthoedd a ddangosir ar dudalen 2.

Mae'r cyfarwyddwyr wedi ystyried canllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus wrth adolygu nodau ac amcanion y Cwmni ac wrth gynllunio gweithgareddau ar gyfer y dyfodol. Yn benodol, mae'r cyfarwyddwyr wedi ystyried sut bydd y gweithgareddau a gynlluniwyd yn cyfrannu at nodau ac amcanion y Cwmni.

Mae ein gweithgareddau yn cael eu cynllunio cyn y flwyddyn yr adroddir arni ac o ddechrau'r cam cynllunio, rhoddir ystyriaeth i fudd cyhoeddus tebygol y gweithgareddau hynny a sut byddant yn cyflawni cenhadaeth y Cwmni. Rhoddir manylion y gweithgareddau a gyflawnwyd, gan gynnwys gweithgareddau oedd â'r nod o annog grwpiau cynulleidfaoedd penodol, yn yr adolygiad o ffrwd 1 perfformiad busnes yn yr adran ar Gynnwys a Chyflwyniadau Artistig.

Mae aelod o staff ar gael ym mhob un o'r perfformiadau a'n digwyddiadau i ymateb i faterion sy'n codi gyda'r cyfranogwyr neu'r gynulleidfaoedd. Caiff adborth a chyfranogiad gan gynulleidfaoedd ei annog yn ein rhaglenni, trwy arolygon, trwy ein gwefan a thrwy weithgareddau oddi allan i'r prif gynyrchiadau.

Mae plant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn nifer o'n cynyrchiadau a'n gweithgareddau; caiff pob un o'n prosiectau sy'n cynnwys pobl ifanc eu cefnogi gan weithwyr proffesiynol ac artistiaid sydd â chymwysterau priodol.

Rydym yn anelu at fod o fudd i'r rhychwant ehangaf posib o'r cyhoedd; er mwyn annog cynulleidfaoedd a chyfranogwyr, rydym yn perfformio mewn theatrau y mae'n hawdd cael mynediad iddynt mewn trefi mawr a dinasoedd yng Nghymru a Lloegr. Mae ein hadran leuenctid a Chymuned yn annog cynulleidfaoedd drwy weithgareddau mewn cymunedau ac ysgolion. Mae cynnyrch marchnata a'n gwefan yn annog cynulleidfaoedd o bob cefndir ac mae ein polisi prisio yn seiliedig ar ymrwymiad i fod yn fforddiadwy ble bynnag y byddwn yn perfformio, drwy brisiau fforddiadwy i berfformiadau opera yn ogystal â gweithgareddau am ddim.

Adroddiad Strategol

Cynaliadwyedd amgylcheddol

Mae'r Cwmni yn monitro ei ddefnydd o ynni a'i effaith amgylcheddol ac yn ailgylchu ei gynrychiadau a'i setiau yn helaeth. Mae gan y Cwmni gymhellion ar waith i annog aelodau staff i leihau eu heffaith ar yr amgylchedd wrth deithio ac mae'n annog defnydd o'r rheilffordd ble bynnag y bo modd.

Y Gymraeg

Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) ('y Rheoliadau') yn gosod safonau cyflenwi gwasanaeth; safonau llunio polisi; safonau gweithredu; a safonau cadw cofnodion.

Mae Opera Cenedlaethol Cymru yn un o 32 o sefydliadau y mae'r Rheoliadau yn berthnasol yn benodol iddynt ac yn hynny o beth, mae'r sefydliad wedi cydymffurfio'n llawn â'r Safonau ers diwedd Gorffennaf 2017.

Adolygiad Ariannol

Dangosir y Datganiad Cyfunol o'r Gweithgareddau Ariannol ar gyfer y Grŵp a'i is-gwmnïau ar dudalen 25.

Yn gyfan gwbl, arweiniodd gweithgareddau'r Grŵp at alldaliadau net o £1,436,000 (2019 - alldaliadau o £876,000).

Incwm:

Bu gostyngiad o £2,789,000 (15%) yng nghyfanswm y mewndaliadau i £15,816,000 (2019 – £18,605,000) o ganlyniad i leihad yn incwm gwerthiant tocynnau, ewyllysiau, cyfraniadau a chodi arian yn ystod y flwyddyn.

Gwariant

Bu gostyngiad o £2,766,000 (13%) yng nghyfanswm y gwariant eleni i £18,147,000 (2019 – £20,913,000). Roedd hyn yn cynnwys gostyngiad o £1,008,000 yn y gwariant ar opera prif raddfa, £205,000 yn y gwariant Rhaglenni ac Ymgysylltu, £1,439,000 ar wariant Masnachu a £114,000 ar wariant Codi Arian.

Bu gostyngiad o £1,213,000 (7%) yn y gwariant ar weithgareddau elusennol ac mae hyn bellach yn cynrychioli 93% o'r holl wariant (2019 – 86%).

Is-gwmnïau

Mae **Cardiff Theatrical Services Limited** yn galluogi WNO i gynnal ei gyfleusterau creu setiau rhagorol ei hun ac mae'n parhau i adeiladu setiau ar gyfer llawer o gleientiaid eraill. Gwnaeth yr is-gwmni golled wedi treth o £21,083 (2019 - £189,171 o elw) yn ystod y flwyddyn ar ôl cyfrannu cyfran briodol o gostau lleoliad a gorbenion i WNO.

Cafodd **WNO Productions Limited** ei sefydlu yn 2014 i greu a pharatoi cynrychiadau theatrig i'r Grŵp.

Rhoddir manylion y ddau is-gwmni yn nodyn 18.

Asedau sefydlog, buddsoddiadau ac arian parod

Roedd cyfanswm yr asedau sefydlog a brynwyd yn ystod y flwyddyn yn £206,000 (2019 - £92,000), gan gynnwys cerbydau newydd, cyfrifiaduron a chyfarpar goleuo.

Wedi buddsoddi'r cronfeydd y cyfeirir atynt uchod, ar ddiwedd y flwyddyn, roedd gan y grŵp £2,908,000 o arian parod yn y banc (2019 – £2,217,000) gan gynnwys cronfa gynhyrchu wrth gefn o £1,155,000 (2019 – £1,393,000).

Adroddiad Strategol

Mae'r Grŵp yn cadw ei arian parod ym mhrif fanciau clirio'r Deyrnas Unedig. Mae'r Pwyllgor Buddsoddiadau yn adolygu trefniadau bancio'r Grŵp yn rheolaidd ac ym mis Mai 2014, fe fuddsoddodd £2,332,000 o gronfeydd wrth gefn sy'n cael eu cadw am y tymor hir (dros dair blynedd) mewn portffolio o fuddsoddiadau. Ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Awst 2020, dychwelodd y portffolio incwm o 2.7% sydd yn gyson â'r targed o gael incwm rhwng 2.8% a 3.5% y flwyddyn. Mae'r buddsoddiadau hyn, sydd yn fuddsoddiadau a gwarantau a fasnechir yn agored, yn cael eu dosbarthu fel buddsoddiadau asedau sefydlog gyda gwerth marchnad o £2,628,000 ar ddiwedd y flwyddyn

(gweler nodyn 7b) **Pensiwn**

Cyfrannodd gweithwyr cyflogedig y Grŵp at gynllun pensiwn cyfraniadau wedi'u diffinio; cafodd cynllun y Grŵp â buddion wedi'u diffinio ei gau i aelodau newydd a chroniadau i'r dyfodol ar 5 Ebrill 2009, ond mae'n dal yn cael ei gynnal gan yr ymddiriedolwyr ar gyfer ei bensiwnwyr (gweler nodyn 17). Roedd y diffyg yn y cynllun â buddion wedi'u diffinio yn gyfanswm o £1,145,000 ar 31 Awst 2020 (2019 – diffyg o £1,807,000) gydag enillion actiwaraid o £881,000 yn cael eu dangos yn ystod y flwyddyn (2019 - colled o £1,712,000). Mae'r symudiadau hyn yn adlewyrchu'r newidiadau ym mhriiad y gwir asedau a'r rhwymedigaethau a amcangyfrifir yn y cynllun, ac nid ydynt yn cynrychioli rhwymedigaethau net wedi'u crisialu.

Rheoli risg

Mae'r Bwrdd yn sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli risg a mesurau rheoli mewnol yn y Grŵp. Mae'r systemau sydd ar waith wedi'u cynllunio i reoli risg i lefel briodol, gan gynnwys defnyddio mesurau rheoli sy'n briodol i raddfa ac allbwn yr elusen.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn adolygu digonoldeb mesurau rheoli ariannol a gweithredol mewnol yr elusen a chofrestr risg y Grŵp yn ffurfiol er mwyn asesu'r prif risgiau strategol, busnes a gweithredol yn barhaus. Mae cynllun parhad busnes cynhwysfawr yn ei le ac mae'r Pwyllgor Archwilio yn adolygu yswiriant yn flynyddol er mwyn sicrhau ei fod yn ddigonol. Mae'r prif risgiau y mae'r Grŵp yn eu hwynebu a'u heffaith bosib fel y gwelir pethau ar hyn o bryd wedi'u hamlinellu isod:

Risg Strategol Allweddol

Cyllid cyhoeddus

Sefydlogrwydd
ariannol

Risgiau ariannol

Gweithredu /Lliniaru

Mae'r Grŵp yn dibynnu ar gyllid o Gyngorau Celfyddydau Cymru a Lloegr i weithredu yn ei ffurf bresennol. Mae cynrychiolwyr o'r ddau Gyngor yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd ac mae'r Cwmni'n cyflwyno ei gynlluniau i'r Gyngorau Celfyddydau cyn iddynt gael eu rhoi ar waith.

Oherwydd y ddibyniaeth ar gyllid cyhoeddus a'r cyfnod paratoi hir gyda chynrychiadau operatig, mae'r Cwmni wedi dynodi cronfa gynhyrchu wrth gefn fel bod modd cynllunio cynrychiadau'r dyfodol gyda hyder. Mae cronfa ailstrwythuro wrth gefn wedi ei sefydlu hefyd er mwyn galluogi buddsoddi mewn newid.

Mae gan gyllido, gwerthiant tocynnau, marchnadoedd buddsoddi, costau pensiynau a chwyddiant oll botensial i effeithio ar ganlyniadau'r Cwmni. Mae lleiafswm o £2.5m o gronfeydd wrth gefn rhydd wedi'i osod gan y Bwrdd er mwyn diogelu'r Cwmni rhag ansefydlogrwydd tymor byr yn y meysydd hyn.

Adroddiad Strategol

Risg Strategol Allweddol

Gweithredu /Lliniaru

Risgiau i enw da

Mae enw da WNO am safon artistig yn gryfder ac yn risg i'r Cwmni; mae'n anorfod o ran ei natur na fydd pob risg artistig yn llwyddo yn llygaid ein cynulleidfa, felly mae proffesiynoldeb y Cwmni a rhagoriaeth ein canolfannau yn bwysig o ran cadw teyrngarwch hirdymor i WNO; caiff y ddau beth eu hadolygu'n rheolaidd.

Adfer wedi trychineb

Mae gan y Cwmni gynllun adfer wedi trychineb cynhwysfawr.

Iechyd a diogelwch

Mae gan y Cwmni bolisi ac arferion iechyd a diogelwch ar waith, ac mae iechyd a diogelwch yn dal i fod yn eitem sefydlog ym mhob cyfarfod Bwrdd. Mae Pwyllgor Iechyd a Diogelwch gweithredol y Cwmni yn cynnwys cynrychiolaeth gan weithwyr cyflogedig ac mae'n cyfarfod yn rheolaidd i adolygu a monitro gweithredu polisiau'r Cwmni.

Risgiau penodol
Covid-19

Yng ngoleuni pandemig Covid-19 wrth iddo esblygu, ystyriodd y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Bwrdd risgiau penodol a wynebai'r Cwmni ac ychwanegwyd atodiad at y Gofrestr Risgiau Strategol. Y prif feysydd a nodwyd oedd Iechyd a Diogelwch ei weithwyr a'i gynulleidfaoedd. Y risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â cholli incwm oherwydd cau canolfannau a'r effaith ar lif arian a hylifedd.

Adroddiad Strategol

Cronfeydd wrth gefn

Ar 31 Awst 2020, cyfanswm y cronfeydd a oedd gan y Grŵp oedd £6,211,000 (2019 - £6,766,000); o'r cyfanswm hwn, roedd £1,959,000 wedi'i ddosbarthu fel cronfeydd cyfyngedig neu gronfeydd gwaddol (2019 - £2,361,000) gan adael cyfanswm o

£4,252,000 o gronfeydd anghyfyngedig (2019 - £4,405,000).

Mae'r Grŵp wedi gosod lleiafswm ar gyfer cronfeydd wrth gefn rhydd o £2,500,000. Mae hyn yn darparu rhwyd ddiogelwch tymor byr i'r Grŵp petai diffygion yn yr incwm heb iddynt gael eu rhagweld ac mae'n seiliedig ar aesiad risg o holl ffynonellau incwm y Grŵp. Mae'r Bwrdd o'r farn mai dyma'r lefel briodol dderbyniol o gronfeydd wrth gefn rhydd er mwyn darparu ar gyfer sefydlogrwydd i'r Grŵp.

Dangosir y cyfrifiad ar gyfer cronfeydd wrth gefn rhydd isod ac mae'n dangos cronfeydd wrth gefn rhydd o £1,577,000 (2019 - £2,500,000); mae gweddill y cronfeydd anghyfyngedig wrth gefn wedi'u neilltuo i gefnogi cynllunio ein cynnyrch artistig yn y blynyddoedd sydd i ddod ac i alluogi newid strategol. Mae talu ffioedd canslo ar gyfer cynyrchiadau haf 2020 o The Nightingale Stravinsky a Bluebeard's castle Bartok wedi peri gostyngiad yn y Gronfa Gynhyrchu Wrth Gefn ac wedi dod â'r Cronfeydd Wrth Gefn Rhydd o dan £2,500,000. Bydd y ffaith bod canolfannau'n dal i fod ar gau yn ystod 2020/21 yn golygu y bydd gostyngiad yn y costau sy'n gysylltiedig â theithio ac yn ein galluogi i ddechrau ailadeiladu'r Cronfeydd Wrth Gefn Rhydd.

Yn unol â chanllawiau gan y Comisiwn Elusennau, mae'r Bwrdd wedi ystyried effaith y diffyg yn y gronfa bensiwn ar gronfeydd wrth gefn y Grŵp ac mae o'r farn y dylai'r Grŵp allu sicrhau darpariaeth ddigonol o'i weithgareddau yn y dyfodol i ddarparu ar gyfer y rhwymedigaethau pensiwn wrth iddynt ddod yn ddyledus.

Cronfeydd wrth gefn rhydd

Mae hyn yn cyfeirio at gronfeydd wrth gefn rhydd sydd wedi'u cyfrifo yn unol â chyfarwyddyd y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir fel a ganlyn:

Ar 31 Awst	2020 £'000	2019 £'000
Cyfanswm cronfeydd anghyfyngedig	4,252	4,405
Eithrio cronfeydd a neilltuwyd - cronfa ailstrwythuro wrth gefn (Nodyn 13)	(437)	(672)
Eithrio cronfeydd a neilltuwyd - cronfa gynhyrchu wrth gefn (Nodyn 13)	(1,155)	(1,393)
Eithrio cronfeydd a neilltuwyd - incwm CJRS (Nodyn 13)	(504)	-
Llai asedau sefydlog	(1,724)	(1,647)
Eithrio cronfa pensiwn wrth gefn	1,145	1,807
Cronfeydd wrth gefn rhydd	1,577	2,500

Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Llywodraethu a Rheoli

Mae'r Cwmni yn elusen gofrestredig a gyfansoddwyd fel Cwmni Cyfyngedig trwy Warrant ac nid oes ganddo gyfalaf cyfrannau (Gweler nodyn 12).

Dangosir manylion cyfeirio a gweinyddol y Cwmni ar dudalen 57, a dangosir manylion Cyfarwyddwyr y Cwmni, sef ei aelodau a'i ymddiriedolwyr elusennol hefyd, ar dudalen 58.

Llywodraethu

Yn unol â'r gofynion yn Erthyglau Cymdeithasu'r Cwmni, caiff cyfarwyddwyr eu penodi gan aelodau'r Cwmni yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol y cwmni, wedi iddynt gael eu henwebu gan aelod. Daw aelodaeth y Bwrdd o Gymru, Llundain a rhanbarthau Lloegr. Rhyngddynt, mae'r cyfarwyddwyr yn meddu ar y rhychwant o arbenigeddau, sgiliau a phrofiad sydd eu hangen i gyflawni cylch gorchwyl llawn cyfrifoldebau'r Bwrdd.

Mae cyfarwyddwyr newydd yn mynd trwy broses cynefino â'r Grŵp ac yn derbyn canllawiau ynglŷn â rôl a chyfrifoldebau bod yn ymddiriedolwr elusen ac yn gyfarwyddwr cwmni. Rhoddir copi o'r Cod Llywodraethiant i bob cyfarwyddwr fel rhan o'r broses cynefino.

Y Bwrdd sy'n gyfrifol am gymeradwyo polisïau, cynlluniau a threfniadaeth cyffredinol.

Gall cyfarwyddwyr ddisgwyl y byddant yn gwasanaethu am ddau dymor olynol o dair blynedd yr un ac maent yn gymwys i wasanaethu am drydydd tymor os caiff hynny ei gymeradwyo gan y Bwrdd yn dilyn adolygiad gan y Pwyllgor Enwebiadau. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol yr ystyrir estyn y cyfnod yn y swydd y tu hwnt i dri thymor. Disgwylir i Gadeirydd y Grŵp wasanaethu am ddau dymor, ni waeth faint o amser y maent wedi gwasanaethu fel cyfarwyddwr cyn cael eu hapwytio, os yw hynny'n berthnasol.

Mae'r cyfarwyddwyr a fu'n gwasanaethu yn ystod y flwyddyn a hyd at ddyddiad llofnodi'r Datganiadau Ariannol wedi'u rhestru yn adran Manylion y Grŵp gan ddechrau ar dudalen 58.

Buddiannau'r Cyfarwyddwyr

Nid oes gan y Cyfarwyddwyr unrhyw fuddiannau yn y Grŵp na'r cyrff cysylltiedig a ddangosir yn nodyn 19 i'r Datganiadau Ariannol. Ni dderbyniodd y Cyfarwyddwyr unrhyw dâl fel cyfarwyddwyr yn ystod y flwyddyn (2019 - £dim).

Uwch Reolwyr

Mae'r Tîm Gweithredol yn cynnwys y Cyfarwyddwr Cyffredinol, a'r Cyfarwyddwr Cerdd, ac mae'r ddau ohonynt yn adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd.

Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn cynnwys cyfarwyddwyr adrannol sydd â chyfrifoldeb am weinyddu artistig, y corws a'r gerddorfa, ymgysylltu a phartneriaethau, datblygu, cyfathrebu a strategaeth, gweithrediadau technegol, marchnata a gwerthiannau, a chyllid. Mae'r tîm hwn yn adrodd i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol.

Mae nodyn 4 yn cynnwys manylion y trefniadau mewn perthynas â thâl yr Uwch Reolwyr.

Cynnwys gweithwyr

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd cyfarfodydd gyda gweithwyr cyflogedig a'u cynrychiolwyr er mwyn rhannu dealltwriaeth o berfformiad y Grŵp a'r ffactorau ariannol ac economaidd sy'n effeithio ar hynny. Mae'r cyfarfodydd hyn yn galluogi'r Grŵp i ystyried safbwyntiau'r gweithwyr wrth wneud penderfyniadau sy'n debygol o effeithio ar eu buddiannau. Mae'r Grŵp yn parhau i fuddsoddi hefyd mewn hyfforddiant a datblygu i staff, ac yn cynnal system arfarnu staff.

Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Cyfle cyfartal ac amrywiaeth

Mae'r Grŵp wedi ymrwymo i bolisi cyfle cyfartal yn ei arferion cyflogi. Nid yw'r Grŵp yn berchen ar nac yn rheoli unrhyw un o'i ganolfannau perfformio, ond mae'n monitro cyfleusterau i fynychwyr anabl ac yn annog perchnogion theatrau i wella'r cyfleusterau lle bo angen. Rhoddir ystyriaeth lawn i gyflogi a hyfforddi pobl anabl yn unol â'r hyn a ganiateir gan yr amodau cyflogi. Mae'n bolisi gan y Cwmni i sicrhau y cynigir parhau i gyflogi gweithwyr sy'n dod yn anabl yn ystod eu cyflogaeth ble bynnag y bo modd.

Mae'r Grŵp wrthi yn adolygu ei Bolisi Cydraddoldeb ac yn creu Cynllun Gweithredu ar amrywiaeth newydd a chadarn a fydd yn symud y Grŵp yn ei flaen o ran amrywiaeth yn y meysydd artistig, y gweithlu a'r gynulleidfa.

Digwyddiadau ers creu'r fantolen

Cadarnhaodd Sefydliad Iechyd y Byd bod yr achosion o'r coronafeirws newydd (Covid-19) yn bandemig byd-eang ar 11 Mawrth 2020. O ganlyniad, gweithredoedd llywodraethau'n fyd-eang i gyflwyno mesurau i ddiogelu lles y boblogaeth. Y mesur mwyaf arwyddocaol o safbwynt WNO oedd cau pob theatr o 16 Mawrth 2020, gan arwain at ganslo taith y gwanwyn gyda chwe wythnos o'r daith yn weddill a chanslo taith yr haf yn ddiweddarach. Wrth i effeithiau'r pandemig barhau i gynyddu, canslwyd y daith a oedd wedi'i chynllunio ar gyfer hydref 2020 hefyd ac wrth i'r Deyrnas Unedig gyfan fynd i gyfnod clo arall ym mis Rhagfyr 2020, cafodd tymor gwanwyn 2021 ei ddiddymu o'r amserlen hefyd.

Er gwaethaf canslo perfformiadau gerbron cynulleidfaoedd byw a'r heriau o gael cerddorion a chantorion i ymarfer gan gadw pellter cymdeithasol, mae'r sefydliad wedi cynhyrchu nifer sylweddol o ddarnau o gynnwys digidol. Yn eu plith, roedd ffilm o *La Voix Humaine* Poulenc, gwaith newydd *A song for the future* a gydgyhyrchwyd gyda Chanolfan Oasis Caerdydd, cyfres gyfan o raglenni byr wedi'u hanelu at gynulleidfa ifanc – Chwarae Opera, ynghyd â chyfres o bodlediadau ac un o recordiadau o gerddoriaeth, caneuon a chyfweliadau.

Mae'r Cwmni'n parhau i ddilyn canllawiau llywodraethau er mwyn diogelu ein pobl a phawb sy'n dod i gysylltiad â'r Cwmni. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar: (i) Cyflawni ein hamcanion elusennol, a (ii) Sicrhau lles a diogelwch staff. Heb awgrym clir ynglŷn â phryd y gallai perfformiadau byw na hyd yn oed ymarferion grŵp ailgychwyn, mae'r Cwmni'n canolbwyntio ar ei gynnyrch digidol ac yn parhau â chymaint o waith ag sy'n bosib trwy'r cyfrwng hwnnw.

Oherwydd amseru diwedd y flwyddyn ariannol, ystyrir y digwyddiadau hyn yn ddigwyddiadau wedi'r fantolen nad ydynt yn addasu, ac ni ellir amcangyfrif eu heffaith ariannol ar y datganiadau hyn.

Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Mae'r digwyddiadau wedi'r fantolen nad ydynt yn addasu sydd wedi deillio o ganlyniadau ariannol pandemig Covid-19 wedi cael eu hystyried. Mae rhagolygon llif arian ar gyfer y dyfodol a nifer o senarios wedi eu paratoi ac mae'r Bwrdd Cyfarwyddwyr o'r farn bod digon o adnoddau ariannol ar gyfer o leiaf y 12 mis nesaf o ddyddiad llofnodi'r datganiadau ariannol i ymdopi ag unrhyw gwymp yn yr economi yn y Deyrnas Unedig ac yn fyd-eang a bod y rhan fwyaf o ganolfannau ar gau tan 2021.

Busnes hyfyw

Mae'r cyfarwyddwyr wedi asesu gallu'r Cwmni i barhau fel busnes hyfyw gan ystyried effeithiau ariannol Covid-19. Mae'r cyfarwyddwyr wedi ystyried nifer o ffactorau wrth ffurfio eu barn ynglŷn ag a ydy defnyddio sail busnes hyfyw yn briodol wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn gan gynnwys hylifedd, adnoddau arian parod, rhwymedigaethau a'r cymorth sydd ar gael gan y mentrau llywodraeth amrywiol gan gynnwys Y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (CJRS).

Ynghyd â nifer o sefydliadau eraill, mae ein sefyllfa ariannol wedi ei heffeithio, a bydd yn dal i gael ei heffeithio gan effeithiau ariannol Covid-19. Mae canslo digwyddiadau, arafu posib ar gyfraniadau a'r economi'n arafu'n gyffredinol ac effaith hyn oll ar incwm wedi cael eu hystyried yn y modelu ariannol, sydd wedi cael ei adolygu yn rheolaidd ers i ganolfannau ddechrau cael eu cau.

Wedi asesu effeithiau senarios lleihau incwm posib, mae'r cyfarwyddwyr wedi dod i'r casgliad bod gan yr elusen ddisgwyliad rhesymol bod adnoddau digonol i barhau i weithredu am o leiaf 12 mis o ddyddiad arwyddo'r datganiadau ariannol ac maent wedi parhau i baratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw.

Archwilydd

Mae pob un o'r unigolion sy'n gyfarwyddwr ar ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad hwn yn cadarnhau:

- cyn belled ag y bo'r gyfarwyddwr yn ymwybodol, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilydd y Cwmni yn ymwybodol ohoni; ac
- Mae'r gyfarwyddwr wedi cymryd yr holl gamau y dylai ef/hi fod wedi'u cymryd fel gyfarwyddwr i sicrhau ei fod ef/ei bod hi'n ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilydd y Cwmni yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Rhoddir y cadarnhad hwn a dylid ei ddehongli yn unol â darpariaethau adran 418 Deddf Cwmnïau 2006.

Bydd cynnig i ailbenodi Azets Audit Services yn cael ei gyflwyno gerbron y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol sydd i ddod.

Cafodd Adroddiad y Cyfarwyddwyr a'r Adroddiad Strategol eu cymeradwyo gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr a'u harwyddo ar ei ran gan:



Martyn Ryan -

Ymddiriedolwr

30^{ain} Mehefin 2021

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

Yr ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr Welsh National Opera Limited at ddibenion cyfraith cwmnïau) sy'n gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr (yn ymgorffori'r adroddiad strategol ac adroddiad y cyfarwyddwyr) a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102: *Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon* (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Mae cyfraith cwmnïau yn ei gwneud yn ofynnol i ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r cwmni elusennol a'r grŵp ac o incwm a gwariant y cwmni elusennol a'r grŵp ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr:

- ddewis polisiau cyfrifyddu addas ac yna eu defnyddio'n gyson;
- cadw at y dulliau a'r egwyddorion sydd yn y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau;
- dod i farn ac amcangyfrif mewn modd sy'n rhesymol ac yn ddoeth;
- datgan a yw Safonau Cyfrifyddu perthnasol y Deyrnas Unedig wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw wyriadau materol berthnasol a ddatgelwyd ac a esboniwyd yn y datganiadau ariannol; a
- Paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyrw oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y cwmni elusennol yn parhau mewn busnes.


Yr ymddiriedolwyr sydd yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu digonol sydd yn datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol y cwmni elusennol ac yn eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio Deddf Cwmnïau 2006. Maent yn gyfrifol hefyd am ddiogelu asedau'r cwmni elusennol a'r grŵp ac felly am gymryd camau rhesymol i atal ac i ddarganfod twyll ac anghysondebau eraill.

Cyn belled ag y mae'r ymddiriedolwyr yn ymwybodol:

- nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y cwmni elusennol yn ymwybodol ohoni; ac
- Mae'r ymddiriedolwyr wedi cymryd yr holl gamau y dylent fod wedi'u cymryd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am gynnal ac am gywirdeb y wybodaeth gorfforaethol ac ariannol a gynhwysir ar wefan y cwmni elusennol. Gallai deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n rheoli'r gwaith o baratoi a rhannu datganiadau ariannol fod yn wahanol i'r deddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Arwyddwyd ar ran Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 30^{ain} Mehefin 2021



Martyn Ryan - Ymddiriedolwr

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau

Welsh National Opera Limited

Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Welsh National Opera Limited (y "rhiant-elusen") a'i is-gwmnïau (y "grŵp") am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Awst 2020 sy'n cynnwys y Datganiad cyfunol o'r Gweithgareddau Ariannol, y Fantolen gyfunol a'r rhiant-fantolen, y Datganiad cyfunol o Lif Arian a'r nodiadau i'r Datganiadau Ariannol, gan gynnwys crynodeb o'r polisiâu cyfrifyddu arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102: Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Gwneir yr adroddiad hwn i aelodau'r elusen yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3 Rhan 16 Deddf Cwmnïau 2006. Mae ein gwaith archwilio wedi'i gynnal er mwyn i ni allu datgan i aelodau'r elusen y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilydd ac i ddim diben arall. Hyd yr eithaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw am aelodau'r elusen fel corff am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, neu am y farn y daethom iddi.

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr materion y grŵp a'r rhiant-elusen ar 31 Awst 2020 ac o incwm a gwariant y grŵp a'r rhiant-elusen am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig;
- wedi'u paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

Sail y farn

Cynhaliom ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y Deyrnas Unedig) (ISAs (UK)) a chyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran ar gyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol yn ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol ar y grŵp a'r rhiant-elusen yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol ac rydym wedi cyflawni ein dyletswyddau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hynny. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer ein barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes hyfyw

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol y mae'n ofynnol i ni adrodd i chi yn eu cylch yn unol â'r ISAs (UK) os:

- nad yw defnydd yr ymddiriedolwyr o'r sail busnes hyfyw o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nad yw'r ymddiriedolwyr wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a all fwrw amheuaeth arwyddocaol ynghylch gallu'r grŵp a'r elusen i barhau i fabwysiadu'r sail busnes hyfyw am gyfnod o o leiaf ddeuddeg mis o'r dyddiad pan gaiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Gwybodaeth arall

Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol heblaw'r datganiadau ariannol a'n hadroddiad archwiliad ar y rheiny. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, heblaw i'r graddau a nodir yn amlwg fel arall yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad ynglŷn â'i sicrwydd.

Mewn perthynas â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ydy darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson mewn modd sy'n faterol berthnasol â'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad neu'n ymddangos am unrhyw reswm arall fel petai wedi ei gamddatgan mewn modd materol berthnasol. Os byddwn yn canfod anghysonderau materol berthnasol o'r fath neu unrhyw beth sydd fel petai'n gamddatganiad materol berthnasol, mae'n ofynnol i ni benderfynu a oes camddatganiad materol berthnasol yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad materol berthnasol o ran y wybodaeth arall. Os, yn seiliedig ar y gwaith a wnaethom, ein bod yn dod i'r farn bod camddatganiad materol berthnasol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hynny o beth.

Barn ar faterion eraill a ragnodir gan Ddeddf Cwmnïau 2006

Yn ein barn ni, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn adroddiad yr ymddiriedolwyr (sy'n ymgorffori'r adroddiad strategol ac adroddiad y cyfarwyddwyr) ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol; ac
- mae adroddiad yr ymddiriedolwyr (sy'n ymgorffori'r adroddiad strategol ac adroddiad y cyfarwyddwyr) wedi'i baratoi yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

Materion y mae angen i ni adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r grŵp a'r elusen a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid ydym wedi canfod camddatganiadau materol berthnasol yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr sy'n cynnwys yr Adroddiad Strategol.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol y mae'n ofynnol i ni adrodd i chi yn eu cylch yn unol â Deddf Cwmnïau 2006 os, yn ein barn ni:

- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol gan y rhiant-elusen neu nad oes adroddiadau digonol ar gyfer ein harchwiliad wedi'u derbyn o ganghennau na wnaethom ymweld a hwy;
- nad yw datganiadau ariannol y rhiant-elusen yn gyson â'r cofnodion a'r adroddiadau cyfrifyddu;
- na ddatgelwyd taliadau penodol i ymddiriedolwyr yn unol â'r hyn a bennir gan y gyfraith; neu
- nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen ar gyfer ein harchwiliad.

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y datganiad o gyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr, yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fodloni eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am unrhyw gamau rheoli mewnlol sy'n angenrheidiol yn eu barn hwy i alluogi paratoi

datganiadau ariannol lle na cheir unrhyw gamddatganiad materol berthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r grŵp a'r elusen i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel sy'n berthnasol, faterion sy'n gysylltiedig â bod yn fusnes hyfyw a defnyddio sail cyfrifyddu busnes hyfyw oni bai bod yr ymddiriedolwyr naill ai'n bwriadu diddymu'r elusen neu roi'r gorau i weithredu, neu bod dim dewis arall realistig ond gwneud hynny.

Ein cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol

Ein nodau yw rhoi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau materol berthnasol yn y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd, boed hynny drwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (UK) bob amser yn canfod camddatganiad materol berthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi trwy dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn faterol berthnasol, pe byddai'n rhesymol ystyried y gallent, yn unigol neu'n rhan o'r cyfanwaith, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities]. Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o'n hadroddiad archwilydd.

**Sarah Case FCA DChA**

Uwch Archwilydd

Statudol dros ac ar ran

Azets Audit Services

Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Statudol Ty

Derw

Lime Tree Court

Parc Busnes Porth

Caerdydd

CF23 8AB

Dyddiad 30^{ain} Mehefin 2021

Datganiad Cyfunol o'r Gweithgareddau Ariannol

Yn ymgorffori'r cyfrif incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Awst 2020

Blynnyddoedd hyd at 31 Awst	Nodyn	Cronfeydd anghyfyngedig £'000	Cronfeydd cyfyngedig £'000	Cronfeydd gwaddol £'000	Cyfan swm 2020 £'000	Cyfan swm 2019 £'000
Incwm a gwaddolion o:						
Gweithgareddau elusennol	2a	1,894	-	-	1,894	2,921
Cyfraniadau		701	41	-	742	2,138
Ewyllysiau		306	-	-	306	268
Grantiau cyffredinol	2a	10,716	1,176	-	11,892	10,657
Incwm masnachu		909	-	-	909	2,536
Incwm buddsoddiadau		31	2	40	73	85
Cyfanswm incwm		14,557	1,219	40	15,816	18,605
Gwariant ar:						
Gweithgareddau elusennol		15,634	1,178	1	16,813	18,026
Codi arian		424	-	-	424	538
Gwariant masnachu		910	-	-	910	2,349
Cyfanswm gwariant	2b	16,968	1,178	1	18,147	20,913
Enillion a cholledion eraill a nodwyd						
(Colledion)/enillion net ar fuddsoddiadau		(89)	(4)	(115)	(208)	(29)
Incwm/(gwariant) net cyn treth		(2,500)	37	(76)	(2,539)	(2,337)
Trethi	18	1,103	-	-	1,103	1,461
Incwm/(gwariant) net ar gyfer y flwyddyn Trosoglwyddiadau	3	(1,397)	37	(76)	(1,436)	(876)
Trosoglwyddo o gronfeydd cyfyngedig	13	363	(363)	-	-	-
Trosoglwyddo i Gronfa Waddol WNO		-	-	-	-	(500)
Enillion/colledion eraill						
(Colledion)/enillion actiwaraid yn y cynllun pensiwn buddion wedi'u diffinio	17	881	-	-	881	(1,712)
Symudiad cronfeydd net		(153)	(326)	(76)	(555)	(3,088)
Balans cronfeydd a ddygwyd ymlaen	16	4,405	630	1,731	6,766	9,854
Balans cronfeydd a ddygir ymlaen		4,252	304	1,655	6,211	6,766

Mae'r datganiad o weithgareddau ariannol yn cynnwys yr holl enillion a cholledion a nodwyd yn ystod y flwyddyn.

Daw'r holl incwm a gwariant o weithgareddau sy'n parhau. Mae'r nodiadau ar dudalennau 29 i 56 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn. Ni chyflwynir cyfrif incwm a gwariant ar wahân ar gyfer y rhiant-gwmni yn unol ag a.408 Deddf Cwmnïau 2006. Cyfanswm incwm y rhiant-gwmni ydy £18,851,000 (2019 - £18,835,000). Y canlyniad a adroddir yng nghyfrifon y rhiant-gwmni ydy gwarged o £958,000 (2019 - diffyg £4,548).

Mantolen Gyfunol

Ar 31 Awst 2020

	Nodyn	31 Awst 2020 £'000	31 Awst 2019 £'000
Asedau sefydlog			
Asedau diriaethol	7a	1,724	1,647
Buddsoddiadau	7b	<u>2,628</u>	<u>2,836</u>
		4,352	4,483
Asedau cyfredol			
Stoc	8	43	41
Dyledwyr	9	3,051	4,490
Arian parod ac arian yn y banc	10	<u>2,908</u>	<u>2,217</u>
		6,002	6,748
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	11	<u>(2,998)</u>	<u>(2,658)</u>
Asedau cyfredol net		<u>3,004</u>	<u>4,090</u>
Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol		7,356	8,573
Cyfanswm asedau ac eithrio rhwymedigaeth pensiynau		7,356	8,573
Pensiynau â buddiannau wedi'u diffinio (rhwymedigaeth)/ased	17	<u>(1,145)</u>	<u>(1,807)</u>
Asedau net		<u>6,211</u>	<u>6,766</u>
Cronfeydd anghyfyngedig			
Cronfeydd elusennol eraill	13	2,433	3,279
Cronfeydd dynodedig	13	2,096	2,065
Cronfa ailbrisio wrth gefn	13	868	868
Cronfa pensiwn wrth gefn	17	<u>(1,145)</u>	<u>(1,807)</u>
Cyfanswm cronfeydd anghyfyngedig	13	4,252	4,405
Cronfeydd cyfyngedig	14	304	630
Cronfeydd gwaddol	15	1,655	1,731
Cyfanswm cronfeydd elusen		<u>6,211</u>	<u>6,766</u>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 29 i 56 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn

Cafodd datganiadau ariannol Welsh National Opera Limited, rhif cwmni cofrestredig 00454297, eu cymeradwyo gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr a'u hawdurdodi i'w cyhoeddi ar 30^{ain} Mehefin 2021



Arwyddwyd ar ran y Bwrdd Cyfarwyddwyr:

Martyn Ryan - Ymddiriedolwr

Mantolen y Cwmni

Ar 31 Awst 2020

	Nodyn	31 Awst 2020 £'000	31 Awst 2019 £'000
Asedau sefydlog			
Asedau diriaethol	7a	1,724	1,647
Buddsoddiadau	7b	<u>2,628</u>	<u>2,836</u>
		4,352	4,483
Asedau cyfredol			
Stoc	8	43	41
Dyledwyr	9	2,034	2,160
Arian parod ac arian yn y banc	10	<u>2,647</u>	<u>1,816</u>
		4,724	4,017
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	11	<u>(2,833)</u>	<u>(2,552)</u>
Asedau cyfredol net		<u>1,891</u>	<u>1,465</u>
Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol		6,243	5,948
Cyfanswm asedau ac eithrio rhwymedigaeth pensiynau		6,243	5,948
Pensiynau â buddianau wedi'u diffinio (rhwymedigaeth)/ased	17	<u>(1,145)</u>	<u>(1,807)</u>
Asedau net		<u>5,098</u>	<u>4,141</u>
Cronfeydd anghyfyngedig:			
Cronfeydd elusennol eraill	13	1,320	654
Cronfeydd dynodedig	13	2,096	2,065
Cronfeydd ailbrisio wrth gefn	13	868	868
Cronfa pensiwn wrth gefn	17	<u>(1,145)</u>	<u>(1,807)</u>
Cyfanswm cronfeydd anghyfyngedig	13	3,139	1,780
Cronfeydd cyfyngedig	14	304	630
Cronfeydd gwaddol	15	1,655	1,731
Cyfanswm cronfeydd elusen		<u>5,098</u>	<u>4,141</u>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 29 i 56 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Ni chyflwynir cyfrif incwm a gwariant ar wahân ar gyfer y rhiant-gwmni yn unol â darpariaethau a.408 Deddf Cwmnïau 2006. Cyfanswm incwm y rhiant-gwmni ydy £18,851,000 (2019 - £18,835,000). Y canlyniad a adroddir yng nghyfrifon y rhiant-gwmni ydy gwarged o £958,000 (2019 - diffyg £4,548).

Cafodd datganiadau ariannol Welsh National Opera Limited, rhif cwmni cofrestredig 00454297, eu cymeradwyo gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr a'u hawdurdodi i'w cyhoeddi ar 30ain Mehefin 2021



Arwyddwyd ar ran y Bwrdd Cyfarwyddwyr:

Martyn Ryan - Ymddiriedolwr

Datganiad Llif Arian Cyfunol

Blynyddoedd hyd at 31 Awst	Nodyn	2020 £'000	2019 £'000
Llif arian net o weithgareddau gweithredol (gweler isod)		1,105	(2,284)
Llog a dderbyniwyd		73	86
Gweithgareddau buddsoddi:			
Derbyniadau o werthu buddsoddiadau (cyfrannau ac ati)	7b	716	316
Buddsoddiadau (mewn cyfrannau ac ati)	7b	(997)	(278)
Prynu asedau sefydlog	7a	(206)	(92)
Derbyniadau o werthu asedau sefydlog	2a	-	25
Symudiad net arian parod		691	(2,227)
Arian parod yn y banc ac mewn llaw ar y dechrau		2,217	4,444
Arian parod yn y banc ac mewn llaw ar y diwedd		2,908	2,217

Llif arian net o weithgareddau gweithredu		2020 £'000	2019 £'000
Blynyddoedd hyd at 31 Awst			
Cost net am y flwyddyn		(1,436)	(876)
Addasiadau ar gyfer:			
Rhyddhau o gronfeydd wrth gefn		-	-
Symudiadau Llog Cronfa Waddol		500	(500)
WNO sy'n daladwy		(73)	(86)
Taliadau dibrisiant	7a	129	109
Elw o werthu asedau sefydlog	2a	-	(25)
Symudiadau buddsoddiadau	7b	208	29
Llif arian gweithredu cyn symudiadau cyfalaf gweithio		(672)	(1,349)
Symudiadau cyfalaf gweithio:			
Symudiadau stociau	8	(2)	(6)
Symudiad dyledwyr	9	1,439	(1,772)
Symudiadau credydwyr	11	340	770
Addasiad ar gyfer cyllid pensiwn	17	-	73
		1,777	(935)
(All-lif)/mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu		1,105	(2,284)

Ni chyflwynir datganiad llifoedd arian ar wahân ar gyfer y rhiant-gwmni yn unol â darpariaethau a.4o8 Deddf Cwmnïau 2006.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 29 i 56 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol

1. Polisïau Cyfrifyddu

Mae Welsh National Opera Limited yn elusen gofrestredig a ymgorfforwyd yng Nghymru a Lloegr fel cwmni cyfyngedig trwy warant heb gyfalaf cyfrannau. Mae'r ymddiriedolwyr yn aelodau o'r Cwmni hefyd. Mae pob aelod wedi ymrwymo i gyfrannu swm heb fod yn fwy na £10 tuag at yr asedau petai'r cwmni'n cael ei ddiddymu. Rhoddir manylion y swyddfa gofrestredig ar dudalen 57.

Sail cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â dogfen lywodraethu'r elusen, Deddf Cwmnïau 2006 a "Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o'r Arfer a Argymhellir sy'n gymwys i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2019". Mae'r elusen yn Endid Budd y Cyhoedd yn unol â'r diffiniad yn FRS 102.

Mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi mewn sterling, sef arian cyfred gweithredol yr elusen. Caiff symiau ariannol yn y datganiadau ariannol hyn eu talgrynnu i'r £ agosaf.

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi dan y confensiwn cost hanesyddol, wedi'i addasu i gynnwys offerynnau ariannol penodol ar werth teg. Amlinellir y prif bolisïau cyfrifyddu a fabwysiadwy isod.

Sail cyfuno

Mae datganiadau ariannol grŵp wedi'u paratoi ar gyfer Welsh National Opera Limited a'i is-gwmnïau sydd dan ei berchenogaeth lawn, Cardiff Theatrical Services Limited ac WNO Productions Limited, ar sail fesul llinell. Amlinellir canlyniadau'r is-gwmnïau yn nodyn 18.

Nid oes datganiad o weithgareddau ariannol a chyfrif incwm a gwariant ar wahân wedi'u cyflwyno ar gyfer yr Elusen yn unig yn unol â'r hyn a ganiateir gan Adran 408 Deddf Cwmnïau 2006 a pharagraff 397 y datganiad o'r Arfer a Argymhellir: Charities SORP (FRS 102).

Busnes hyfyw

Amlinellir gweithgareddau'r Grŵp a'i gynlluniau ar gyfer y dyfodol yn yr Adroddiad Strategol ac Adroddiad y Cyfarwyddwyr.

Nid oes gan y Grŵp unrhyw gyfleusterau benthyca allanol ac mae'n rheoli ei weithgareddau gyda balansau banc anghyfyngedig positif.

Mae'r cyfarwyddwyr yn adolygu ac yn rheoli amrywiadau tymor byr mewn llifoedd incwm, sy'n cynnwys gwerthiant tocynnau, incwm masnachol a datblygu, ac maent wedi sefydlu lleiafswm lefel y cronfeydd wrth gefn rhydd ac eithrio rhwymedigaeth y pensiwn â buddion wedi'u diffinio o £2.5m i ganiatáu ar gyfer amrywiadau disgwylidiedig. Mae'r Bwrdd o'r farn bod hyn yn lefel dderbyniol o gronfeydd wrth gefn rhydd er mwyn darparu ar gyfer sefydlogrwydd i'r Cwmni. Mae cronfeydd wrth gefn rhydd y grŵp wedi cwmpo islaw'r lefel hon yn 2019/20. Am fwy o wybodaeth gweler tudalen 17.

Cyllid grant ydy llif incwm mwyaf y Grŵp ac mae wedi'i ymrwymo gan Gyngor Celfyddydau Lloegr hyd at fis Mawrth 2022 ac ym mis Rhagfyr 2017, cadarnhaodd Cyngor Celfyddydau Cymru godiad o 3% ar gyfer y flwyddyn yn dechrau yn 2017, gan weithio i gylch chwe-misol.

Mae rhagolygon a rhagamcanion y Grŵp, sy'n ystyried newidiadau y gellir eu rhagweld yn rhesymol mewn incwm a gwariant, yn dangos y dylai'r Grŵp allu parhau i weithredu a'i fod mewn sefyllfa dda i reoli ei risgiau busnes yn llwyddiannus dros y 12 mis nesaf.

Mae gan y cyfarwyddwyr ddisgwyliad rhesymol felly bod gan y Grŵp adnoddau digonol i barhau i fodoli'n weithredol am y dyfodol rhagweladwy. O'r herwydd, maent yn parhau i fabwysiadu'r sail busnes hyfyw o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol blyneddol.

1. Polisiâu Cyfrifyddu (parhad)

Cyfrifyddu cronfeydd

Cronfeydd cyffredinol ydy cronfeydd anghyfyngedig sydd ar gael i'w defnyddio yn ôl disgrisiwn y bwrdd er hyrwyddo amcanion cyffredinol yr elusen ac nad ydynt wedi cael eu clustnodi ar gyfer dibenion eraill.

Mae cronfeydd a neilltuwyd yn cynnwys cronfeydd sydd wedi'u clustnodi yn ôl disgrisiwn yr ymddiriedolwyr at ddibenion penodol. Amlinellir dibenion a defnydd y cronfeydd a neilltuwyd yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.

Cronfeydd cyfyngedig ydy cronfeydd sydd i'w defnyddio yn unol â chyfyngiadau penodol a osodwyd gan gyfranwyr sydd wedi cael eu codi gan yr elusen at ddibenion penodol. Caiff costau codi a gweinyddu cronfeydd o'r fath eu gwario o'r gronfa benodol. Amlinellir nodau a defnydd pob un o'r cronfeydd cyfyngedig yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.

Mae cronfeydd gwaddol yn destun amodau penodol gan roddwyr bod rhaid i'r cyfalaf gael ei gadw gan yr elusen.

Adnoddau yn dod i mewn

Cydnabyddir incwm pan fydd gan yr elusen hawl gyfreithiol iddo wedi i unrhyw amodau perfformio gael eu bodloni, pan mae modd mesur y symiau yn ddibynadwy, ac mae'n debygol y bydd yr incwm yn cael ei dderbyn.

Cydnabyddir cyfraniadau arian parod wrth eu derbyn. Cydnabyddir cyfraniadau eraill unwaith y bydd yr elusen wedi cael ei hysbysu o'r cyfraniad, oni bai bod amodau perfformio yn golygu bod angen oedi gyda'r swm.

Caiff incwm o grantiau ei gydnabod pan fydd gan yr elusen hawl i'r cronfeydd, gydag unrhyw amodau perfformio sy'n gysylltiedig â'r grantiau wedi'u bodloni, a'i bod yn debygol y bydd yr incwm yn cael ei dderbyn a bod modd mesur y swm yn ddibynadwy ac nad yw wedi'i ohirio.

Caiff ewyllysiau eu cydnabod wrth eu derbyn neu fel arall os bydd yr elusen wedi ei hysbysu o ddosbarthiad sydd i ddod, bod y swm yn wybyddus ac y disgwylir ei dderbyn. Os nad yw'r swm yn wybyddus, caiff y swm yn yr ewylllys ei drin fel ased amodol.

Caiff incwm o weithgareddau elusennol ac incwm masnachu ei gydnabod yn y cyfnod y mae'r gwasanaeth yn perthyn iddo gydag unrhyw symiau a dderbynnir ymlaen llaw yn cael eu gohirio.

Ni chynhwysir unrhyw symiau yn y datganiadau ariannol ar gyfer gwasanaethau ac amser a gaiff eu cyfrannu gan wirfoddolwyr.

Cynhwysir llog ar gronfeydd pan fydd yn ddyledus a bod modd i'r elusen fesur y swm yn ddibynadwy; bydd hyn fel arfer pan roddir hysbysiad o'r llog a dalwyd neu sy'n daladwy gan y banc. Caiff incwm difidendau ei gydnabod ar y dyddiad y sefydlir hawl yr elusen i dderbyn taliad.

Caiff trosiant ei fesur ar sail gwerth teg yr ystyriaeth a dderbynnir neu sy'n dderbyniadwy am nwyddau a gwasanaethau a ddarparwyd trwy drefniadau arferol busnes, net ar gyfer unrhyw ostyngiadau, TAW a threthi eraill sy'n gysylltiedig â gwerthu.

1. Polisiâu Cyfrifyddu (parhad)

Cydnabod gwariant

Cydnabyddir gwariant unwaith y bydd rhwymedigaeth gyfreithiol neu ymarferol i wneud taliad i drydydd parti, ei bod yn debygol bod angen setlo taliad a bod modd mesur swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy. Caiff gwariant ei ddosbarthu o dan y penawdau gweithgaredd canlynol:

- Mae costau codi arian yn cynnwys y costau mewn perthynas â chynhyrchu incwm megis codi arian a digwyddiadau, marchnata a chyhoeddusrwydd a chostau penodol sy'n gysylltiedig ag is-gwmnïau masnachu'r elusen.
- Mae gwariant ar weithgareddau elusennol yn cynnwys yr holl gostau sy'n gysylltiedig â hyrwyddo amcanion yr elusen fel y'u nodir yn adroddiad yr ymddiriedolwyr.

Nodir TAW nad oes modd ei adennill fel cost yn erbyn y gweithgaredd y cafwyd y gwariant ar ei gyfer.

Caiff gwariant mewn perthynas â chynhyrchiadau sydd i'w cyflwyno mewn cyfnod ariannol yn y dyfodol ei godi adeg perfformiad cyntaf y cynhyrchiad. Mae gwariant o'r fath yn cynnwys cyfran y cwmni o gostau'r set, propiau, gwisgoedd, wigiau, ymarferion a marchnata'r cynhyrchiad hwnnw.

Darparwyd dadansoddiad o'r gweithgareddau elusennol ar sail adrannol.

Ble bo modd, caiff costau eu priodoli yn uniongyrchol i'r gweithgaredd y maent yn perthyn iddo. Ble nad oes modd priodoli costau y uniongyrchol i benawdau penodol, maent wedi eu dyrannu i weithgareddau ar sail sy'n gyson â'r defnydd o'r adnoddau.

Costau cefnogi ydy'r swyddogaethau hynny sy'n cynorthwyo gwaith yr elusen ond nad ydynt yn ymgymryd yn uniongyrchol â gweithgareddau elusennol. Mae costau llywodraethu yn cynnwys yr holl gostau sy'n ymwneud ag atebolrwydd cyhoeddus yr elusen a chydymffurfio â rheoliadau ac arfer da.

Trethi

Fel elusen gofrestredig, mae gan Welsh National Opera Limited hawl i gael ei eithrio rhag treth mewn perthynas ag incwm ac enillion cyfalaf a dderbynnir gydag adrannau 478-489 Deddf Treth Gorfforaeth 2010 ac adran 256 Deddf Trethu Enillion Trethadwy 1992 i'r graddau y caiff rhain eu cymhwyso i ddibenion ei amcanion elusennol yn unig.

Rhyddhad Treth Theatrau

Caiff symiau sy'n ddyledus i Opera Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Rhyddhad Treth Theatrau eu cynnwys yn y flwyddyn ariannol y mae'r hawliad yn berthnasol iddi o dan Incwm o Weithgareddau Elusennol yn hytrach nag fel credyd treth neu ostyngiad mewn gwariant gan fod natur a bwriad Rhyddhad Treth Theatrau yn gyfystyr ag incwm grant llywodraeth.

1. Polisiâu Cyfrifyddu (parhad)

Asedau sefydlog a dibrisiant

Caiff asedau sefydlog diriaethol eu mesur yn y lle cyntaf yn ôl eu cost a'u mesur wedyn ar sail eu cost neu brisiad, net o ddibrisiant ac unrhyw golledion oherwydd diffygion neu mewn achosion pan fydd asedau sefydlog wedi'u rhoi i'r elusen, ar sail prisiad ar yr adeg y'u derbynir.

Cydnabyddir dibrisiant er mwyn dileu cost neu brisiad asedau llai eu gwerth gwaddodol dros eu bywydau defnyddiol ar y seiliau canlynol:

Categori'r Ased:	Polisi Dibrisiant:
Eiddo ar brydles hir	Dibrisio dros 50 mlynedd
Cerbydau	10% i 25% y flwyddyn ar sail llinell syth
Cyfarpar, gosodiadau a ffitiadau	9% i 33% y flwyddyn ar sail llinell syth

Cafodd eiddo prydles hir y Grŵp ei brisio wrth drosglwyddo i FRS 102, ac mae'r gwerth hwn bellach wedi cael ei fabwysiadu gan y Grŵp fel y gost dybiedig yn unol â'r hyn a ganiateir gan FRS102.

Cynhwysir asedau sefydlog eraill ar eu cost llai dibrisiant cronol

Caiff costau creu cynrychiadau opera eu diddymu'n llawn adeg perfformiad cyntaf y cynhyrchiad gan y Cwmni.

Buddsoddiadau

Caiff buddsoddiadau asedau sefydlog mewn cyfrannau a ddyfynnir, bondiau a fasnechir a buddsoddiadau tebyg eu prisio ar eu cost i ddechrau ac wedyn ar werth teg (gwerth y farchnad) ar ddiwedd y flwyddyn. Ymdrinnir yn yr un ffordd â buddsoddiadau nad ydynt wedi'u rhestru oni bai nad oes modd mesur gwerth teg yn ddibynadwy, ac os felly, caiff ei fesur ar sail cost llai diffygion.

Stoc

Mae stoc yn cynnwys deunydd crai ac yn cael ei nodi ar gost neu werth net y gellir ei wireddu.

Arian Parod yn y banc ac Arian Parod a chywerth arian parod mewn llaw

Mae arian parod a chywerthoedd arian parod yn cynnwys arian parod mewn llaw, arian cadw gedwir ar alw gan fanciau, buddsoddiadau hylifol tymor byr eraill gyda thymhorau aeddfedu o dri mis neu lai, a gorddrafftiau banc. Dangosir gorddrafftiau banc o fewn benthyciadau yn y rhwymedigaethau cyfredol.

Offerynnau ariannol

Mae'r elusen wedi dewis gweithredu darpariaethau Adran 11 'Offerynnau Ariannol Sylfaenol' ac Adran 12 'Materion Offerynnau Ariannol Eraill' FRS 102 ar gyfer ei holl offerynnau ariannol. Yn unol â Chyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau: (SORP 2015), cyfrifir am grantiau cyfalaf o fewn cronfeydd cyfyngedig. O'r herwydd, ceir gostyngiad yn y gronfa hon yn unol â dibrisiant ar yr asedau sefydlog diriaethol a gafwyd gyda'r grant.

Cydnabyddir offerynnau ariannol ym mantolen yr elusen pan fydd yr elusen yn dod yn ymrwymedig i ddarpariaethau cytundebol yr offeryn.

Caiff asedau a rhwymedigaethau ariannol eu gwrthbwysu, gyda'r symiau net yn cael eu cyflwyno yn y datganiadau ariannol, pan fydd hawl y gellir ei gorfodi'n gyfreithiol i wrthbwysu'r symiau a gydnabyddir a bwriad i setlo ar sail net neu i wireddu'r ased a setlo'r rhwymedigaeth ar yr un pryd.

1. Polisiâu Cyfrifyddu (parhad)

Asedau ariannol sylfaenol

Caiff asedau ariannol sylfaenol, sy'n cynnwys dyledwyr a balansau arian parod a banciau, eu mesur i ddechrau ar bris y trafodion gan gynnwys costau trafodion ac fe'u dygir ymlaen wedyn ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull cyfradd log effeithiol oni bai bod y cytundeb yn cyfateb i drafodyn ariannol, ble caiff y trafodyn ei fesur ar werth presennol derbyniadau'r dyfodol wedi'i ddisgowntio ar raddfa log marchnad. Nid yw asedau ariannol a ddosberthir fel rhai sy'n dderbyniadwy o fewn un flwyddyn yn cael eu hamorteiddio.

Dad-gydnabod asedau ariannol

Caiff asedau ariannol eu dad-gydnabod dim ond pan fo hawliau cytundebol i lifoedd arian o'r ased yn dod i ben neu'n cael eu setlo neu pan fo'r elusen yn trosglwyddo'r ased ariannol ac i bob pwrpas, holl risgiau a manteision perchenogaeth i endid arall, neu os cedwir rhai o risgiau a manteision perchenogaeth ond bod rheolaeth dros yr ased wedi trosglwyddo i barti arall sy'n gallu gwerthu'r ased honno yn ei chyfanrwydd i drydydd parti nad yw'n gysylltiedig.

Rhwymedigaethau ariannol sylfaenol

Caiff rhwymedigaethau ariannol sylfaenol, sy'n cynnwys credydwyr a benthyciadau banciau, eu cydnabod i ddechrau ar bris y trafodion oni bai bod y cytundeb yn cyfateb i drafodyn ariannol, ble caiff yr offeryn dyled ei fesur ar werth presennol derbyniadau'r dyfodol wedi'i ddisgowntio ar raddfa log marchnad. Nid yw rhwymedigaethau ariannol a ddosberthir fel rhai sy'n daladwy o fewn un flwyddyn yn cael eu hamorteiddio.

Caiff offerynnau dyled eu dwyn ymlaen wedyn ar gost wedi'i hamorteiddio, gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol.

Credydwyr masnach ydy rhwymedigaethau i dalu am nwyddau neu wasanaethau sydd wedi'u derbyn yn ystod gweithrediadau arferol gan gyflenwyr. Caiff symiau sy'n daladwy eu dosbarthu fel rhwymedigaethau cyfredol os yw'r taliad yn ddyledus o fewn un flwyddyn neu lai. Os nad ydynt, cânt eu cyflwyno fel rhwymedigaethau anghyfredol. Caiff credydwyr masnach eu cydnabod i ddechrau ar bris y trafodyn ac wedi hynny cânt eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol.

Dad-gydnabod rhwymedigaethau ariannol

Caiff rhwymedigaethau ariannol eu dad-gydnabod pan fydd rhwymedigaeth gytundebol yr elusen yn dod i ben neu'n cael ei rhyddhau, neu ei chanslo.

Buddion Gweithwyr

Cydnabyddir cost unrhyw hawl i wyliau nad yw wedi'i ddefnyddio yn y cyfnod y caiff gwasanaethau'r gweithiwr eu derbyn.

Cydnabyddir buddion terfynu ar unwaith fel cost pan fydd yr elusen yn amlwg yn ymrwymedig i derfynu cyflogaeth gweithiwr neu i ddarparu buddion terfynu.

Pensiynau

Ar gyfer cynlluniau â chyfraniadau wedi'u diffinio:

Mae'r cwmni elusennol yn gweithredu cynllun pensiwn â chyfraniadau wedi'u diffinio. Caiff asedau'r cynllun eu cadw ar wahân i rai'r elusen. Caiff taliadau i gynlluniau pensiwn â chyfraniadau wedi'u diffinio eu codi fel cost awrth iddynt ddod yn ddyledus ac maent yn cael eu dyrannu yn erbyn cronfeydd anghyfyngedig.

1. Polisiâu Cyfrifyddu (parhad)

Ar gyfer y cynllun â buddion wedi'u diffinio:

Mae'r Grŵp yn cadw cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio a gafodd ei gau i aelodau newydd a chroniadau i'r dyfodol o 5 Ebrill 2009. Mae nodyn 17 yn amlinellu datgeliadau llawn yn unol ag FRS 102 'Buddion Ymddeol'.

Caiff asedau'r cynllun eu cadw ar wahân mewn cronfa a weinyddir yn annibynnol.

Caiff costau darparu buddion o dan gynlluniau â buddion wedi'u diffinio eu penderfynu ar wahân ar gyfer pob cynllun gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau credyd, ac mae'n seiliedig ar gyngor actiwaraidd.

Mae'r newid yn y rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio net sy'n deillio o wasanaeth gweithwyr yn ystod y flwyddyn yn cael ei gydnabod fel cost gweithwyr. Caiff costau cyflwyno i'r cynllun, newidiadau i fuddion, setliadau a chwtogiadau eu cydnabod fel cost a wariwyd.

Caiff yr elfen llog net ei phennu drwy luosi'r rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio net â'r raddfa ddisgownt, gan ystyried unrhyw newidiadau y rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio net yn ystod y cyfnod o ganlyniad i daliadau cyfraniadau a buddion. Cydnabyddir y llog net yn yr incwm/(gwariant) am y flwyddyn.

Mae newidiadau ailfesur yn cynnwys enillion a cholledion actiwaraidd, effaith y nenfwd asedau a'r enillion/colledion ar y rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio net ac eithrio symiau a gynhwysir yn y llog net. Caiff rhain eu cydnabod ar unwaith yn yr enillion a'r colledion eraill a gydnabyddir yn y cyfnod y maent yn digwydd ynddo ac nid ydynt yn cael eu hailddosbarthu i incwm/(gwariant) mewn cyfnodau sy'n dilyn.

Mae'r ased neu'r rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio net yn y fantolen yn cynnwys y cyfanswm ar gyfer pob cynllun yn ôl gwerth presennol y rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio (gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt yn seiliedig ar fondiau corfforaethol o ansawdd uchel), llai gwerth teg asedau'r cynllun y mae'r rhwymedigaethau i gael eu setlo'n uniongyrchol ohonynt. Mae gwerth teg yn seiliedig ar wybodaeth am bris y farchnad, ac yn achos gwarannau a ddyfynnir, y pris bidio a gyhoeddwyd a ddefnyddir. Mae gwerth ased buddion pensiwn net yn gyfyngedig i'r swm y gellir ei adennill naill ai drwy ostyngiad mewn cyfraniadau neu drwy ad-daliadau a gytunir o'r cynllun.

Prydlesau gweithredol

Caiff costau rhent dan brydlesi gweithredol eu codi ar y datganiad o weithgareddau ariannol ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

Barn gyfrifyddu gritigol a ffynonellau allweddol ansicrwydd amcangyfrif

Wrth baratoi weithredu polisiâu cyfrifyddu'r elusen, mae angen i'r ymddiriedolwyr ffurfio barn a gwneud amcangyfrifon a thybiaethau ynglŷn â'r symiau o asedau a rhwymedigaethau a ddygir ymlaen nad ydynt yn amlwg o ffynonellau eraill. Mae'r amcangyfrifon a'r thybiaethau cysylltiedig yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill yr ystyrir eu bod yn berthnasol. Gall y gwir ganlyniadau fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn.

Caiff yr amcangyfrifon a'r thybiaethau sy'n sail iddynt eu hadolygu yn barhaus. Caiff addasiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu eu cydnabod yn y cyfnod y caiff yr amcangyfrif ei addasu ynddo ble bydd yr addasiad yn effeithio ar y cyfnod hwnnw yn unig, neu yng nghyfnod yr addasiad a chyfnodau yn y dyfodol pan fydd yr addasiad yn effeithio ar y cyfnod presennol a rhai'r dyfodol.

Ar gyfer cyfrifyddu pensiynau, mae angen amcangyfrif o dybiaethau actiwaraidd. Dyma yw amcangyfrif gorau'r elusen o'r amrywiolion a fydd yn pennu'r rhwymedigaeth ar ddiwedd y flwyddyn. Nid yw'r ymddiriedolwyr yn ystyried bod unrhyw farnau critigol neu ffynonellau ansicrwydd amcangyfrif eraill y mae angen eu datgelu.

2. Dadansoddiad o Weithgaredd Elusennol

(a) Incwm:	Cronfeydd anghyfyngedig 2020 £'000	Cronfeydd cyfyngedig 2020 £'000	Cronfa gwaddol 2020 £'000	Blwyddyn 2020 £'000	Blwyddyn 2019 £'000
Blynyddoedd hyd at 31 Awst					
Gwerthiant tocynnau ac incwm tebyg	1,600	-	-	1,600	2,233
Rhaglenni ac Ymgysylltu	96	-	-	96	48
Incwm o weithgareddau elusennol eraill	198	-	-	198	615
Elw o waredu asedau sefydlog	-	-	-	-	25
Incwm o weithgareddau elusennol	1,894	-	-	1,894	2,921
Grantiau derbyniadwy:					
Cyngor Celfyddydau Lloegr	6,170	-	-	6,170	6,123
Cyngor Celfyddydau Cymru	4,546	-	-	4,546	4,534
CThEM CJRS	-	1,176	-	1,176	-
Grantiau cyffredinol	10,716	1,176	-	11,892	10,657

Mae'r rhan fwyaf o'r incwm yn y ddwy flynedd yn deillio o weithgareddau yn y DU gyda llai na £100,000 yn deillio o'r Undeb Ewropeaidd.

(b) Gwariant ar weithgareddau elusennol

Blynyddoedd hyd at 31 Awst	Gweithgaredd uniongyrchol 2020 £'000	Costau cefnogi 2020 £'000	Blwyddyn 2020 £'000	Gweithgaredd uniongyrchol 2019 £'000	Costau cefnogi 2019 £'000	Blwyddyn 2019 £'000
Opera prif raddfa	14,075	1,392	15,467	14,857	1,618	16,475
Rhaglenni ac Ymgysylltu	1,258	88	1,346	1,449	102	1,551
Gweithgaredd elusennol	15,333	1,480	16,813	16,306	1,720	18,026
Codi arian	378	46	424	484	54	538
Masnachu	910	-	910	2,349	-	2,349
Cyfanswm gwariant	16,621	1,526	18,147	19,139	1,774	20,913

2. Dadansoddiad o Weithgaredd Elusennol (parhad)

(c) Costau cefnogi

Blynyddoedd hyd at 31 Awst	2020	2019
	£'000	£'000
Lleoliad yng Nghanolfan Mileniwm Cymru	266	320
Cyllid a TG	700	624
Gweinyddu, AD	512	721
Costau llywodraethu	5	32
Costau Cynllun Pensiwn â Buddion wedi'u Diffinio	43	77
Costau cefnogi	1,526	1,774

Dyrannu costau cefnogi i weithgareddau yn seiliedig ar gostau uniongyrchol a wariwyd:

Opera	1,392	1,618
Rhaglenni ac Ymgysylltu	88	102
Codi arian	46	54
Costau cefnogi	1,526	1,774

Caiff dyraniad costau cefnogi i weithgaredd masnachu ei ffactora i mewn i drefniadau trosglwyddo prisio, felly nid oes angen dyraniad pellach.

3. Incwm a Gwariant Net

(a) Nodir adnoddau derbyniadau /(all-daliadau) net ar ôl codi:

Blynyddoedd hyd at 31 Awst	2020	2019
	£'000	£'000
Rhenti dan brydlesi gweithredol - tir ac adeiladau	181	175
Rhenti dan brydlesi gweithredol - cyfarpar	14	12
Dibrisiant – asedau sy'n eiddo i'r Cwmni	129	109
Tâl archwilydd fel archwilydd statudol	32	39
Ffioedd eraill a dalwyd i'r archwilydd ac eithrio ffioedd archwilio	-	-

Mae'r archwilydd, Azets Audit Services, yn darparu gwasanaethau archwilio ychwanegol i Gynllun Pensiwn Welsh National Opera Limited sydd ag ymddiriedolwyr annibynnol ar yr elusen, sy'n talu ffioedd archwilio o £5,750 (2019 -£7,100).

3. Incwm a Gwariant Net (parhad)

(b) Incwm net ar gyfer y rhiant-Gwmni

Nid oes datganiad ar wahân o weithgareddau ariannol wedi'i gynnwys ar gyfer Welsh National Opera Limited. Wedi'u cynnwys yn y datganiad cyfunol o gronfeydd, mae'r symiau canlynol mewn perthynas â Welsh National Opera Limited:

	2020	2019
Blynnyddoedd hyd at 31 Awst		
	£'000	£'000
Cyfanswm adnoddau yn dod i mewn	18,851	18,835
(Diffyg)/gwaged net am y flwyddyn	77	(2,559)
(Colledion)/enillion actiwaraid ar y cynllun pensiwn buddion wedi'u diffinio (gweler nodyn 17)	881	(1,712)
(Diffyg)/gwaged yn cynnwys (colledion)/enillion actiwaraid yn y cynllun pensiwn	958	(4,548)

4. Costau a Niferoedd Gweithwyr

Y Grŵp a'r Cwmni

Cyfanswm costau gweithwyr yn ystod y flwyddyn (gan gynnwys staff dros dro) oedd:

Blynnyddoedd hyd at 31 Awst	2020	2019
	£'000	£'000
Cyflogau	8,372	8,336
Costau nawdd cymdeithasol	816	820
Costau pensiwn eraill	462	448
Costau diffyg pensiwn	219	109
	9,869	9,713

Wedi'u cynnwys yn y costau gweithwyr uchod mae costau 120 o staff dros dro ac achlysurol (2019 - 128) a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn gan dalu cyflogau i gyfanswm o £519,808 (2019 – £1,234,631). Taliadau diswyddo a therfynu yn dod i gyfanswm o £dim ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben ar 31ain Awst 2020 (2019: £118,709). Caiff symiau'n ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn, sef cyfanswm o £dim (2019: £95,000) eu cynnwys hefyd.

Cyfartaledd misol niferoedd y gweithwyr parhaol fesul gweithgaredd oedd;

Blynnyddoedd hyd at 31 Awst	2020	2019
	Nifer	Nifer
Opera	170	170
Ieuencid a Chymuned	12	8
Cefnogaeth	12	13
Mae codi arian	10	10
Masnachu	25	23
	229	224

4. Costau a Niferoedd Gweithwyr (parhad)

Nifer gweithwyr y Grŵp yr oedd eu taliadau ac eithrio cyfraniadau pensiwn ond yn cynnwys cyfraniadau mewn da yn fwy na £60,000 oedd:

Blynyddoedd hyd at 31 Awst	2020 Nifer	2019 Nifer
£60,000 - £69,999	3	2
£70,000 - £79,999	3	2
£80,000 - £89,999	1	1
£90,000 - £99,999	-	-
£100,000 - £109,999	-	1
£110,000 - £119,999	-	1
£140,000 - £149,999	1	-

Tâl uwch reolwyr

Rhestrir swyddogion uwch reoli'r Cwmni a'r Grŵp ar dudalen 58. Cyfanswm y taliadau (gan gynnwys cyfraniadau pensiwn a ffioedd llawrydd) mewn perthynas ag uwch reolwyr y Cwmni a'r Grŵp ar gyfer y flwyddyn oedd £796,807 (2019 - £987,764).

Caiff tâl a thelerau cyflogaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol eu gosod gan y Bwrdd a'u hadolygu'n flynyddol. Ar gyfer uwch reolwyr eraill, cânt eu hadolygu'n flynyddol a'u cymharu'n achlysurol â rolau tebyg.

Taliadau'r Cyfarwyddwyr

Ni dderbyniodd y Cyfarwyddwyr unrhyw dâl am eu rolau fel cyfarwyddwyr yn ystod y flwyddyn (2019 - £dim) a thalwyd £3,509 o dreuliau llety a theithio i naw cyfarwyddwr yn ystod y flwyddyn (2019 - £2,740 i chwe chyfarwyddwr). Bydd cyfarwyddwyr yn prynu tocynnau ar gyfer perfformiadau ar brisiau'r swyddfa docynnau ac eithrio nifer fach o docynnau am ddim ar gyfer dibenion gwesteio a marchnata swyddogol.

5. Trethi ar Weithgareddau Arferol

Mae Welsh National Opera Limited yn Gwmni cyfyngedig trwy warant ac yn elusen gofrestredig.

Fel elusen gofrestredig, mae gan Welsh National Opera Limited hawl i gael ei eithrio rhag treth mewn perthynas ag incwm ac enillion cyfalaf a dderbynnir gydag adrannau 478-489 Deddf Treth Gorfforaeth 2010 ac adran 256 Deddf Trethu Enillion Trethadwy 1992 i'r graddau y caiff rhain eu cymhwyso i ddibenion ei amcanion elusennol yn unig. Mae gan yr elusen ddau is-gwmni sydd dan ei berchenogaeth lawn:

- i) Mae Cardiff Theatrical Services Limited, fodd bynnag, yn destun treth. Yn y flwyddyn gyfredol, ni ddaeth unrhyw dreth corfforaeth (2019 - £dim) yn ddyledus gan yr is-gwmni.
- ii) Mae WNO Productions Limited yn destun treth hefyd a gwnaeth gais am Rhyddhad Treth Theatrau ar y prif gynyrchiadau a grëwyd yn y flwyddyn hyd at 31 Awst 2020 am swm o £1,102,605 (2019 £1,460,539).

6. Ymrwymadau Prydlesu Gweithredol

Roedd y Cwmni a'r Grŵp wedi ymrwmo i wneud y taliadau prydlesu canlynol fel lleiafswm mewn perthynas â phrydlesi gweithredol:

Blynyddoedd hyd at 31 Awst	2020 £	2019 £
Yn ddyledus, 1 flwyddyn	118,136	118,136
Yn ddyledus 2-5 mlynedd	117,468	131,717
Yn ddyledus > 5 mlynedd	2,333,742	2,361,819

7. Asedau sefydlog

7a. Asedau sefydlog diriaethol

Y Grŵp a'r Cwmni	Prydles hir £'000	Cerbydau £'000	Cyfarpar £'000	Cyfanswm £'000
Cost				
Ar 1 Medi 2019	1,500	579	1,624	3,703
Ychwanegiadau	-	-	206	206
Gwerthiannau	-	-	-	-
Ar 31 Awst 2020	1,500	579	1,830	3,909
Dibrisiant				
Ar 1 Medi 2019	120	504	1,432	2,056
Cost am y flwyddyn	30	18	81	129
Gwerthiannau	-	-	-	-
Ar 31 Awst 2020	150	522	1,513	2,185
Gwerth net ar bapur				
Ar 31 Awst 2019	1,380	75	192	1,647
Ar 31 Awst 2020	1,350	57	317	1,724

7. Asedau Sefydlog

7a. Asedau sefydlog diriaethol (parhad)

Mae'r eiddo arall sydd ar brydles hir wedi cael ei brisio'n broffesiynol gan Lambert Smith Hampton, Syrfewyr Siartredig, ar sail prisiad marchnad agored, defnydd presennol a meddiannaeth wag, wrth drosglwyddo i FRS102 ar 31 Awst 2015 ar £1,500,000 yn unol â Safonau Proffesiynol Priso'r DU Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig Ionawr 2014 (adolygwyd Ebrill 2015).

Oherwydd y cyfyngiadau yn y defnydd o'r gofod yng Nghanolfan Mileniwm Cymru y mae WNO yn ei feddiannu trwy'r brydles sy'n parhau hyd at 2995, amcangyfrifir nad oes unrhyw werth masnachol i'r ased arbenigol hon a chafodd ei gwerth net ar bapur o £218,000 ei ddiddymu ar 31 Awst 2015.

Mae'r sefydliad wedi ymrwmo i brynu system Ad/cyflogres gan MHR ar gost o £67,371 ac y bydd y taliad olaf yn cael ei wneud unwaith y bydd y system yn mynd yn fyw yng ngwanwyn 2021.

7b. Buddsoddiadau asedau sefydlog

Brewin Dolphin Limited ydy rheolwr buddsoddi cronfeydd tymor hir y Cwmni. Roedd y buddsoddiadau canlynol yn cael eu dal a'u rheoli gan Brewin Dolphin ar ddiwedd y flwyddyn:

Y Grŵp a'r Cwmni Ar 31 Awst	2020 £'000	2019 £'000
Bondiau corfforaethol ac arian parod	396	498
Soddgyfrannau:		
- Y DU	1,027	1,084
- UDA	620	585
- Soddgyfrannau eraill	521	518
- Eiddo	64	151
	2,628	2,836

Roedd y symudiadau mewn buddsoddiadau a ddaliwyd fel a ganlyn:

Blynnyddoedd hyd at 31 Awst	2020 £'000	2019 £'000
Gwerth y farchnad ar ddechrau'r flwyddyn	2,836	2,867
Ychwanegiadau ar gost	997	278
Gwarediadau ar y gwerth a ddygwyd ymlaen	(716)	(316)
(Colledion)/enillion net a wireddwyd a heb eu gwireddu	(489)	7
Gwerth y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn	2,628	2,836
Cost hanesyddol ar ddiwedd y flwyddyn	2,394	2,533
Wedi'i gynnwys yn yr uchod, mae arian parod a ddelir o fewn y portffolio i gyfanswm o	34	418

7. Asedau Sefydlog

Buddsoddiadau eraill

Roedd y Cwmni hefyd yn dal 100% o'r cyfalaf cyfrannau yn ei is-gwmnïau masnachu ar ddechrau ac ar ddiwedd y flwyddyn (gweler nodyn 18 am fanylion):

- Cardiff Theatrical Services Limited (cost hanesyddol £90), a
- WNO Productions Limited (cost hanesyddol £100).

8. Stoc

Ar 31 Awst				
	Grŵp	Grŵp	Cwmni	Cwmni
	2020	2019	2020	2019
	£'000	£'000	£'000	£'000
Deunyddiau crai	43	41	43	41

Mae'r stoc yn cynnwys deunyddiau a gedwir yn y gweithdai i'w defnyddio i adeiladau setiau a golygfeydd i'w gwerthu i gwsmeriaid trydydd-parti.

9. Dyledwyr

Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

Ar 31 Awst	Grŵp	Grŵp	Cwmni	Cwmni
	2020	2019	2020	2019
	£'000	£'000	£'000	£'000
Dyledwyr masnach	80	598	60	472
Symiau sy'n ddyledus gan ymgymeriadau'r Grŵp	-	-	95	469
Dyledwyr eraill	237	141	247	236
Trethi	1,103	2,768	-	-
Rhagdaliadau ac incwm a gronwyd	1,631	983	1,632	983
	3,051	4,490	2,034	2,160

Mae'r symiau sy'n ddyledus gan ymgymeriadau'r Grŵp yn cynnwys symiau sy'n ddyledus gan Cardiff Theatrical Services Limited ar gyfer trafodion misol arferol.

10. Arian Parod yn y Banc ac Mewn Llaw

Ar 31 Awst	Grŵp	Grŵp	Cwmni	Cwmni
	2020	2019	2020	2019
	£'000	£'000	£'000	£'000
Arian parod yn y banc ac mewn llaw	2,908	2,217	2,647	1,816

Nid oes gan y Cwmni unrhyw fenthyciadau na chyfleusterau gorddrafft.

Caiiff cyfran sylweddol o asedau hylifol y Grŵp ei ddal fel buddsoddiadau asedau sefydlog (nodyn 7b).

11. Credydwyr: Symiau'n Ddyledus o Fewn Blwyddyn

	Grŵp	Grŵp	Cwmni	Cwmni
Ar 31 Awst	2020	2019	2020	2019
	£'000	£'000	£'000	£'000
Credydwyr masnach	21	131	21	132
Credydwyr eraill gan gynnwys trethi	339	420	339	418
Croniadau	358	624	360	624
Incwm grant a ohiriwyd	66	378	66	378
Incwm arall a ohiriwyd	2,214	1,105	2,047	1,000
	2,998	2,658	2,833	2,552

Mae incwm arall a ohiriwyd yn deillio o gydogynrychiadau, cynrychiadau yn y dyfodol a gwaith Cardiff Theatrical Services Limited.

Dadansoddiad o symudiadau mewn Incwm arall a ohiriwyd

	Grŵp	Grŵp	Cwmni	Cwmni
Ar 31 Awst	2020	2019	2020	2019
	£'000	£'000	£'000	£'000
Dygwyd ymlaen	1,105	367	1,000	34
Rhyddhawyd yn ystod y flwyddyn	(121)	(367)	(16)	(34)
Derbyniwyd yn ystod y flwyddyn	1,230	1,105	1,063	1,000
Dygir ymlaen	2,214	1,105	2,047	1,000

Dadansoddiad o symudiadau mewn Incwm grant a ohiriwyd

	Grŵp	Grŵp	Cwmni	Cwmni
Ar 31 Awst	2020	2019	2020	2019
	£'000	£'000	£'000	£'000
Dygwyd ymlaen	378	378	378	378
Rhyddhawyd yn ystod y flwyddyn	(10,716)	(10,657)	(10,716)	(10,657)
Derbyniwyd yn ystod y flwyddyn	10,404	10,657	10,404	10,657
Dygir ymlaen	66	378	66	378

12. Statws y Cwmni

Mae'r Cwmni yn elusen gofrestredig a gyfansoddwyd fel Cwmni Cyfyngedig trwy Warant ac nid oes ganddo gyfalaf cyfrannau. Mae atebolrwydd pob aelod wedi'i gyfyngu i £10 a'r terfyn uchaf ar nifer yr aelodau ydy 20. Gwir nifer yr aelodau ar 31 Awst 2020 oedd 13 (2019 - 8).

13. Cronfeydd Anghyfngedig

Ar 31 Awst 2020

Grŵp	Balans agoriadol	Adnoddau yn dod i mewn	Adnoddau a wariwyd	Enillion / (colledion)	Trosglwyd diadau	Balans cloi
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cronfa ailstrwythuro wrth gefn	672	-	-	-	(235)	437
Cronfa gynhyrchu wrth gefn	1,393	-	-	-	(238)	1,155
Cronfa CJRS wrth gefn	-	-	-	-	504	504
Cronfa pensiwn wrth gefn	(1,807)	-	(219)	881	-	(1,145)
Cronfa ailbrisio wrth gefn	868	-	-	-	-	868
Incwm a gwariant	3,279	15,660	(16,749)	(89)	332	2,433
Cyfanswm cronfeydd y Grŵp	4,405	15,660	(16,968)	792	363	4,252

Cwmni	Balans agoriadol	Adnoddau yn dod i mewn	Adnoddau a wariwyd	Enillion / (colledion)	Trosglwydd iadau	Balans cloi
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cronfa ailstrwythuro	672	-	-	-	(235)	437
Cronfa gynhyrchu wrth gefn	1,393	-	-	-	(238)	1,155
Cronfa CJRS wrth gefn	-	-	-	-	504	504
Cronfa pensiwn wrth gefn	(1,807)	-	(219)	881	-	(1,145)
Cronfa ailbrisio wrth gefn	868	-	-	-	-	868
Incwm a gwariant	654	17,592	(17,169)	(89)	332	1,320
Cyfanswm cronfeydd y Cwmni	1,780	17,592	(17,388)	792	363	3,139

Mae'r Cronfeydd dynodedig yn cynnwys y cronfeydd wrth gefn ar gyfer Ailstrwythuro a Chynhyrchu fel y manylir isod.

Mae cronfa 'Ailstrwythuro' wrth gefn wedi ei dynodi i alluogi buddsoddi mewn newid ac mae'n ffurfio rhan o gronfeydd wrth gefn anghyfngedig y Cwmni. Mae'n ymgorffori'r hyn a elwid gynt yn Gronfa'r Cyfryngau hefyd.

Neilltuir y Gronfa 'Gynhyrchu' wrth gefn i gefnogi'r gwaith o gynllunio repertoire uchelgeisiol mewn blynyddoedd i ddod, ac mae'n arbennig o bwysig gyda'r cyfnodau paratoi hir ar gyfer operâu ar raddfa fawr ac i gefnogi ymdrechion i ymelwa ar waith y Cwmni.

Neilltuir y gronfa 'CJRS' wrth gefn i glustnodi rhyddhau incwm Y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws a dderbyniwyd yn unol â cholledion o'r swyddfa docynnau mewn cyfnodau yn y dyfodol.

13. Cronfeydd Anghyfyngedig (parhad)

Ar 31 Awst 2019

Grŵp	Balans agoriadol	Adnoddau yn dod i mewn	Adnoddau a wariwyd	Enillion / (colledion)	Trosglwyddi adau	Balans cloi
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cronfa ailstrwythuro wrth gefn	672	-	-	-	-	672
Cronfa gynhyrchu wrth gefn	1,606	-	-	-	(213)	1,393
Cronfa pensiwn wrth gefn	14	-	(109)	(1,712)	-	(1,807)
Cronfa ailbrisio wrth gefn	868	-	-	-	-	868
Incwm a gwariant	4,164	18,360	(19,458)	-	213	3,279
Cyfanswm cronfeydd y Grŵp	7,324	18,360	(19,567)	(1,712)	-	4,405
Cwmni	Balans agoriadol	Adnoddau yn dod i mewn	Adnoddau u a wariwyd	Enillio n / (colledion)	Trosglwyd diadau	Balans cloi
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cronfa ailstrwythuro wrth gefn	672	-	-	-	-	672
Cronfa gynhyrchu wrth gefn	1,606	-	-	-	(213)	1,393
Cronfa pensiwn wrth gefn	14	-	(109)	(1,712)	-	(1,807)
Cronfeydd ailbrisio wrth gefn	868	-	-	-	-	868
Incwm a gwariant	2,999	17,157	(19,715)	-	213	654
Cyfanswm cronfeydd y Cwmni	6,159	17,157	(19,824)	(1,712)	-	1,780

14. Cronfeydd cyfyngedig

Ar 31 Awst 2020

Y Grŵp a'r Cwmni	Balans agoriadol £'000	Adnoddau yn dod i mewn £'000	Adnoddau a wariwyd £'000	Ailbrisio £'000	Trosglwyd diadau £'000	Balans cloi £'000
Ymddiriedolaeth Seligman	65	2	-	(4)	-	63
Bwrsari Schaefer	18	-	-	-	-	18
Bwrsari C Ball	9	-	(2)	-	-	7
Bwrsari Teulu Parri	10	-	-	-	-	10
Paul Hamlyn Artworks	4	-	-	-	-	4
Fidelity	160	-	-	-	(120)	40
CThEM CJRS	-	1,176	(1,176)	-	-	-
Arall	364	41	-	-	(243)	162
Cyfanswm cronfeydd cyfyngedig	630	1,219	(1,178)	(4)	(363)	304

Ar 31 Awst 2019

Y Grŵp a'r Cwmni	Balans agoriadol £'000	Adnoddau yn dod i mewn £'000	Adnoddau a wariwyd £'000	Ailbrisio £'000	Trosglwyd diadau £'000	Balans cloi £'000
Ymddiriedolaeth Seligman	64	2	-	(1)	-	65
Bwrsari Schaefer	18	-	-	-	-	18
Bwrsari C Ball	9	-	-	-	-	9
Bwrsari Teulu Parri	10	-	-	-	-	10
Paul Hamlyn Artworks	4	-	-	-	-	4
Fidelity	-	252	(92)	-	-	160
Arall	223	877	(736)	-	-	364
Cyfanswm cronfeydd cyfyngedig	828	1,161	(1,358)	(1)	-	630

Cedwir cronfeydd cyfyngedig i'w defnyddio dan yr amodau a osodir gan y rhoddwyr, megis ar gyfer cynyrchiadau penodol neu i gefnogi mathau penodol o weithgaredd cerddorol neu gymunedol.

15. Cronfeydd Gwaddol

Ar 31 Awst 2020

Y Grŵp a'r Cwmni	Balans agoriadol	Incwm llog	Adnoddau a wariwyd	Ailbrisio	Balans cloi
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Ymddiriedolaeth Mary Warner	1,225	28	-	(81)	1,172
RW Pethybridge	440	10	-	(29)	421
Gwobr Syr John Moores	66	2	(1)	(5)	62
Cyfanswm cronfeydd gwaddol	1,731	40	(1)	(115)	1,655

Ar 31 Awst 2019

Y Grŵp a'r Cwmni	Balans agoriadol	Incwm llog	Adnoddau a wariwyd	Ailbrisio	Balans cloi
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Ymddiriedolaeth Mary Warner	1,204	32	-	(11)	1,225
RW Pethybridge	433	11	-	(4)	440
Gwobr Syr John Moores	65	2	-	(1)	66
Cyfanswm cronfeydd gwaddol	1,702	45	-	(16)	1,731

Mae Ymddiriedolaeth Mary Warner yn waddol barhaol a grëwyd dan delerau ewyllys, ac a reolir gan grŵp diffiniedig o ymddiriedolwyr ar gyfer yr amcanion a osodwyd gyda'r rhodd: hyfforddi a datblygu tenoriaid sydd â gwreiddiau yng Nghymru.

Mae cronfa RW Pethybridge yn gronfa waddol i'w gwario a ddelir er budd pobl Cymru sy'n anabl, yn henoed neu yn y carchar.

Mae Gwobr Syr John Moores yn waddol barhaol a ddelir ar gyfer dyfarnu gwobr flynyddol ar gyfer datblygu gyrfa artist ifanc.

16. Dadansoddiad o Asedau Net Rhwng Cronfeydd

Ar 31 Awst 2020

Grŵp	Cronfeydd anghyfyngedig £'000	Cronfeydd cyfyngedig £'000	Cronfeydd gwaddol £'000	Cyfanswm £'000
Asedau sefydlog diriaethol	1,724	-	-	1,724
Buddsoddiadau asedau sefydlog	1,127	54	1,447	2,628
Asedau cyfredol net	2,546	250	208	3,004
Cronfa pensiwn wrth gefn	(1,145)	-	-	(1,145)
Asedau net	4,252	304	1,655	6,211
Cwmni				
Asedau sefydlog diriaethol	1,724	-	-	1,724
Buddsoddiadau asedau sefydlog	1,127	54	1,447	2,628
Asedau cyfredol net	1,433	250	208	1,891
Cronfa pensiwn wrth gefn	(1,145)	-	-	(1,145)
Asedau net	3,139	304	1,655	5,098

Ar 31 Awst 2019

Grŵp	Cronfeydd anghyfyngedig £'000	Cronfeydd cyfyngedig £'000	Cronfeydd gwaddol £'000	Cyfanswm £'000
Asedau sefydlog diriaethol	1,647	-	-	1,647
Buddsoddiadau asedau sefydlog	1,216	58	1,562	2,836
Asedau cyfredol net	3,349	572	169	4,090
Cronfa pensiwn wrth gefn	(1,807)	-	-	(1,807)
Asedau net	4,405	630	1,731	6,766
Cwmni				
Asedau sefydlog diriaethol	1,647	-	-	1,647
Buddsoddiadau asedau sefydlog	1,216	58	1,562	2,836
Asedau cyfredol net	724	572	169	1,465
Cronfa pensiwn wrth gefn	(1,807)	-	-	(1,807)
Asedau net	1,780	630	1,731	4,141

17. Cynlluniau Pensiwn

Mae'r datgeliadau isod wedi'u paratoi ar gyfer Welsh National Opera Limited (y "Cwmni") mewn perthynas â buddion sy'n daladwy o Gynllun Pensiwn Welsh National Opera Limited (y "Cynllun").

Ni fu unrhyw gyfraniadau gan y Cwmni tuag at y Cynllun ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Awst 2020, a disgwylir y bydd cyfraniadau'r Cwmni ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Awst 2021 yn ddim.

Mae'r prisiad a ddefnyddiwyd ar gyfer datgeliadau FRS 102 wedi'i seilio ar asesiad llawn o rhwymedigaethau'r Cynllun ar 31 Awst 2020. Cafodd gwerth presennol rhwymedigaethau'r buddion wedi'u diffinio eu mesur gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau credyd.

Amlinellir y prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r rhwymedigaethau dan FRS 102 isod:

	Rhagdybiaethau		
	31 Awst 2020 % p.a.	31 Awst 2019 % p.a.	31 Awst 2018 % p.a.
Chwyddiant RPI	2.95	3.3	3.5
Chwyddiant CPI	2.35	2.4	2.5
Codiadau pensiynau (Cyn Ebrill 1997 yn uwch na GMP)	3.0	3.0	3.0
Codiadau pensiynau (Ebrill 1997 - Ebrill 2005)	2.35	2.4	2.5
Codiadau pensiynau (Wedi Ebrill 2005)	1.8	1.8	1.8
Cyfradd ddisgownt ar gyfer rhwymedigaethau'r Cynllun	1.7	1.8	2.7
Hirhoedledd ar gyfer aelod 65 oed ar hyn o bryd:			
- Gwryw	21.2	21.6	21.6
- Benyw	23.2	23.6	23.5
Hirhoedledd ar gyfer aelod fydd yn 65 oed ymhen 20 mlynedd:			
- Gwryw	22.5	23.0	23.0
- Benyw	24.7	25.1	25.1

17. Cynlluniau Pensiwn (parhad)

Sensitifedd y rhagdybiaethau

Mae'r tabl isod yn darparu gwybodaeth am sensitifedd y rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio i newidiadau i'r rhagdybiaethau actiwaraid mwyaf arwyddocaol. Mae'r tabl yn dangos effaith newidiadau i bob un o'r rhagdybiaethau fesul un; serch hynny, yn ymarferol, gallai newidiadau i ragdybiaethau ddigwydd ar yr un pryd a gallai hynny naill ai wrthbwysu neu ddwysáu'r effaith gyffredinol ar y rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio. Mae'r sensitifeddu hyn wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio'r un fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer y prif gyfrifiadau, ac ni fu unrhyw newid ers y cyfnod blaenorol i'r dull a'r rhagdybiaethau a ddefnyddir wrth baratoi'r dadansoddiad sensitifedd. Cyfartaledd hyd y rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio, wedi'i bwysoli ydy 20 mlynedd.

Canran newid i'r Rhwymedigaeth Buddion Wedi'u Diffinio	Newid rhagdybiaeth	
	Cynnydd o 0.5% p.a.	Gostyngiad o 0.5% p.a.
Rhagdybiaeth		
Cyfradd ddisgownt	-9%	+10%
Chwyddiant	+7%	-6%
Byddai cynnydd o flwyddyn yn y disgwyliad oes rhagdybiedig ar gyfer gwrywod a benywod yn peri cynnydd o 4% yn y Rhwymedigaeth Buddion Wedi'u Diffinio.		

	Gwerth teg asedau		
	31 Awst 2020 £'000	31 Awst 2019 £'000	31 Awst 2018 £'000
Soddgyfrannau			
Mynegai-gysylltiedig	8,662	8,321	7,868
Bondiau	6,714	6,447	5,935
Bondiau Corfforaethol	1,693	1,634	1,483
Arall	61	27	34
Cyfanswm	17,130	16,429	15,320

Cysoni statws cyllido i'r fantolen

	Gwerth ar 31 Awst 2020 £'000	Gwerth ar 31 Awst 2019 £'000
Gwerth teg asedau'r Cynllun	17,130	16,429
Gwerth presennol rhwymedigaethau buddion wedi'u diffinio a gyllidir (Diffyg)/gwarged	(18,275) (1,145)	(18,236) (1,807)
(Rhwymedigaeth)/ased a gydnabyddir ar y fantolen	(1,145)	(1,807)

Dadansoddiad o elw a cholled

	Gwerth ar 31 Awst 2020 £'000	Gwerth ar 31 Awst 2019 £'000
Costau gweinyddu	-	-
Cost llog net	33	-
Cost gwasanaeth yn y gorffennol	186	109
Cost a gydnabyddir yn yr elw a cholled	219	109

17. Cynlluniau Pensiwn (parhad)

Newidiadau i werth presennol y rhwymedigaethau buddion wedi'u diffinio

	Gwerth ar 31 Awst 2020 £'000	Gwerth ar 31 Awst 2019 £'000
Rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio agoriadol	18,236	15,306
Costau gweinyddu	-	-
Cost llog	326	411
Ailfesur (enillion)/colledion		
- Colledion actiwaraid ar rwymedigaethau'r Cynllun mewn perthynas â'r rhagdybiaethau	248	2,622
- Colledion actiwaraid ar rwymedigaethau'r Cynllun mewn perthynas â phrofiad	(87)	(14)
Buddion net a dalwyd allan	(304)	(198)
Cost gwasanaeth yn y gorffennol	186	109
Rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio cloi	18,605	18,236

Newidiadau i werth teg asedau'r Cynllun

	Gwerth ar 31 Awst 2020 £'000	Gwerth ar 31 Awst 2019 £'000
Gwerth teg agoriadol asedau'r Cynllun	16,429	15,320
Incwm llog ar asedau'r Cynllun	293	411
Ailfesur enillion/(colledion)		
- Enillion/colledion ar asedau'r Cynllun llai Incwm llog	712	896
Cyfraniadau gan y Cwmni	-	-
Buddion net a dalwyd allan	(304)	(198)
Gwerth teg cloi asedau'r Cynllun	17,130	16,429

Dadansoddiad o'r symiau a gydnabyddir yn y Datganiad o weithgareddau ariannol

	Gwerth ar 31 Awst 2020 £'000	Gwerth ar 31 Awst 2019 £'000
Enillion/colledion ar asedau'r Cynllun llai incwm llog	712	896
(Colledion)/enillion ar ragdybiaethau ariannol	(248)	(2,622)
(Colledion)/enillion ar ragdybiaethau demograffig	330	-
Enillion profiad ar rwymedigaethau'r Cynllun	87	14
Cyfanswm (colled)/enillion	881	(1,712)

17. Cynlluniau Pensiwn (parhad)

Gwir enillion/colledion ar asedau'r Cynllun

	Gwerth ar 31 Awst 2020 £'000	Gwerth ar 31 Awst 2019 £'000
Incwm llog ar asedau'r Cynllun	-	411
Enillion/colledion ar asedau'r Cynllun llai incwm llog	-	896
Cyfanswm enillion/colledion ar asedau'r Cynllun	1,005	1,307

18. Gwybodaeth Ychwanegol am Is-gwmnïau

Mae gan Welsh National Opera Limited ddau is-gwmni:

Cardiff Theatrical Services Limited - rhif cofrestru'r cwmni 01705868 sydd wedi'i ymgorffori yn y Deyrnas Unedig.

Swyddfa gofrestredig - Stryd Ellen, Caerdydd, CF10 4TT

Wedi'i gaffael gan Welsh National Opera Limited am £dim ar 1 Ebrill 1989, mae cyfalaf cyfrannau Cardiff Theatrical Services Limited yn cynnwys 90 o gyfrannau cyffredin o £1 sydd oll dan berchenogaeth lawn Welsh National Opera Limited.

Diben Cardiff Theatrical Services Limited ydy gweithredu fel cangen fasnachu Welsh National Opera Limited, yn bennaf trwy ymgymryd â gwerthu setiau, gwisgoedd ac eiddo theatrig a chludiant ar ran Welsh National Opera Limited a phartïon allanol. Caiff setiau theatrig eu cynhyrchu o fewn uned gynhyrchu yn Welsh National Opera Limited a'u codi ar gost lawn i Cardiff Theatrical Services Limited.

Roedd canlyniadau masnachu'r is-gwmni fel a ganlyn:

Blynnyddoedd hyd at 31 Awst	2020 £'000	2019 £'000
Trosiant	1,340	2,740
Cost gwerthiannau	(1,352)	(2,545)
Elw gros	(12)	195
Costau gweinyddu	(9)	(6)
Elw/(colled) gweithredu	(21)	189
Rhodd Cymorth i'r rhiant-gwmni	-	(189)
Colled cyn treth	(21)	-
Trethi	-	-
Elw/(colled) am y flwyddyn ariannol	(21)	-

Crynsyth yr asedau, rhwymedigaethau a chronfeydd oedd:

Ar 31 Awst	2020 £'000	2019 £'000
Asedau	285	612
Rhwymedigaethau	(281)	(587)
Cronfeydd cyfranddalwyr	4	25

18. Gwybodaeth Ychwanegol am Is-gwmnïau (parhad)

Yn gynwysedig o fewn y trosiant a chost gwerthiannau, mae masnach rhyng-gwmniol

Ar 31 Awst	2020 £'000	2019 £'000
Gwerthiant	430	239
Pryniannau	1,367	2,551
Symiau'n ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn	95	469

Datganiad o Newidiadau yn yr Ecwiti

Cwmni	Cyfalaf cyfrannau £	Cronfeydd wrth gefn elw a cholled £	Cyfanswm £
Balans ar 1 ^{af} Medi 2018	90	24,789	24,879
Blwyddyn ddaeth i ben 31 Awst 2019	-	189,171	189,171
Elw a chyfanswm incwm cyfun am y flwyddyn	-	(189,171)	(189,171)
Dosbarthiadau i'r rhiant-elusen drwy Rodd Cymorth			
Balans ar 31 Awst 2019	90	24,789	24,879
Blwyddyn ddaeth i ben 31 Awst 2020			
Colled a chyfanswm incwm cyfun am y flwyddyn	-	(21,083)	(21,083)
Balans ar 31 Awst 2020	90	3,706	3,796

18. Gwybodaeth Ychwanegol am Is-gwmnïau (parhad)

WNO Productions Limited - rhif cofrestru'r cwmni 09247950 sydd wedi'i ymgorffori yn y Deyrnas Unedig.

Swyddfa gofrestredig – Canolfan Mileniwm Cymru, Bute Place, Caerdydd CF10 5AL

Wedi'i ffurfio gan Welsh National Opera Limited ar 03 Hydref 2014, mae cyfalaf cyfrannau WNO Productions Limited yn cynnwys 100 o gyfrannau cyffredin o £1 sydd oll dan berchenogaeth lawn Welsh National Opera Limited.

Diben WNO Productions Limited ydy creu a pharatoi cynyrchiadau theatrig i Grŵp cwmnïau Opera Cenedlaethol Cymru.

Roedd canlyniadau masnachu'r is-gwmni fel a ganlyn:

Blynnyddoedd hyd at 31 Awst	2020 £'000	2019 £'000
Trosiant	8,829	12,332
Cost gwerthiannau	(8,814)	(12,312)
Elw gros	15	20
Costau gweinyddu	(15)	(20)
Elw / (colled) gweithredu	-	-
Elw / (colled) cyn treth	-	-
Rhyddhad treth theatrau ar gynyrchiadau	1,103	1,461
Elw a gadwyd yn yr is-gwmni	1,103	1,461

Crynswth yr asedau, rhwymedigaethau a chronfeydd oedd:

Ar 31 Awst	2020 £'000	2019 £'000
Asedau	1,123	2,620
Rhwymedigaethau	(15)	(20)
Cronfeydd cyfranddalwyr	1,108	2,600

18. Gwybodaeth Ychwanegol am Is-gwmnïau (parhad)

	2020	2019
	£'000	£'000
Ar 31 Awst		
Gwerthiant	8,829	12,332
Pryniannau	8,829	12,332
Symiau'n ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn	-	-

Datganiad o Newidiadau yn yr Ecwiti

Cwmni	Cyfalaf cyfrannau	Cronfeydd wrth gefn elw a cholled	Cyfanswm
	£	£	£
Balans ar 1 ^{af} Medi 2018	100	1,139,543	1,139,643
Blwyddyn ddaeth i ben 31 Awst 2019			
Elw a chyfanswm incwm cyfun am y flwyddyn		1,460,538	1,460,538
Balans ar 31 Awst 2019	100	2,600,081	2,600,181
Blwyddyn ddaeth i ben 31 Awst 2020			
Colled a chyfanswm incwm cyfun am y flwyddyn	-	1,102,605	1,102,605
Dosbarthiadau i'r rhiant-elusen drwy Rodd Cymorth	-	(2,595,081)	(2,595,081)
Balans ar 31 Awst 2020	100	1,107,605	1,107,705

19. Partïon Cysylltiedig

Mae gan Welsh National Opera Limited gysylltiadau â'r elusennau canlynol sydd wedi'u cofrestru'n annibynnol:

Welsh National Opera Benevolent Trust (elusen 1085756).

Ar 31 Awst	2020	2019
	£	£
Incwm a dderbyniwyd	491	3,250
Cyllid a ddyfarnwyd	(1,000)	(3,250)
Dyledwr	509	-

Welsh National Opera Endowment Fund (elusen 1146595).

Ar 31 Awst	2020	2019
	£	£
Incwm buddsoddiadau	25,375	12,878
Bwrsariaethau y gwnaed cais amdanynt	40,000	30,000
Dyledwr	40,000	30,000
Credydwr	75,537	52,396
Gwerth y portffolio	879,173	948,728

Datganiad Cyfunol o'r Gweithgareddau Ariannol 2019

Yn ymgorffori'r cyfrif incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Awst 2019

Blynnyddoedd hyd at 31 Awst						
	Nodyn	Cronfeydd anghyfyngedig £'000	Cronfeydd cyfyngedig £'000	Cronfeydd gwaddol £'000	Cyfanswm 2019 £'000	Cyfanswm 2018 £'000
Incwm o:						
Gweithgareddau elusenol	2a	2,921	-	-	2,921	2,746
Cyfraniadau		479	1,159	500	2,138	1,310
Ewyllysiau		268	-	-	268	62
Grantiau cyffredinol	2a	10,657	-	-	10,657	10,657
Incwm masnachu		2,536	-	-	2,536	2,002
Incwm buddsoddiadau		38	2	45	85	91
Cyfanswm incwm		16,899	1,161	545	18,605	16,868
Gwariant ar:						
Gweithgareddau elusenol		16,668	1,358	-	18,026	15,617
Codi arian		538	-	-	538	490
Gwariant masnachu		2,349	-	-	2,349	2,000
Cyfanswm gwariant	2b	19,555	1,358	-	20,913	18,107
(Colledion)/enillion net ar fuddsoddiadau	7b	(12)	(1)	(16)	(29)	68
Incwm/(gwariant) net cyn treth		(2,668)	(198)	529	(2,337)	(1,171)
Trethi	18	1,461	-	-	1,461	1,136
Incwm/(gwariant) net ar gyfer y flwyddyn	3	(1,207)	(198)	529	(876)	(35)
Rhyddhau o gronfeydd wrth gefn		-	-	-	-	(576)
Trosglwyddo i Gronfa Waddol WNO		-	-	(500)	(500)	-
(Colledion)/enillion actiwaraid yn y cynllun pensiwn buddion wedi'u diffinio	17	(1,712)	-	-	(1,712)	1,263
Symudiad cronfeydd net		(2,919)	(198)	29	(3,088)	652
Balans cronfeydd a ddygwyd ymlaen		7,324	828	1,702	9,854	9,202
Balans cronfeydd a ddygir ymlaen		4,405	630	1,731	6,766	9,854

Mae'r datganiad o weithgareddau ariannol yn cynnwys yr holl enillion a cholledion a nodwyd yn ystod y flwyddyn.

Daw'r holl incwm a gwariant o weithgareddau sy'n parhau.

Ni chyflwynir cyfrif incwm a gwariant ar wahân ar gyfer y rhiant-gwmni yn unol â darpariaethau a.408 Deddf Cwmnïau 2006. Cyfanswm incwm y rhiant-gwmni ydy £18,835,000 (2018 - £19,374,000). Y canlyniad a adroddir yng nghyfrifon y rhiant-gwmni ydy diffyg o £4,548 (2018 - gwarged £2,221).

Manylion cyfeirio a gweinyddol

Manylion y Cwmni

Welsh National Opera Limited

(Cwmni cyfyngedig drwy warant ac heb gyfalaf cyfrannau)

Swyddfa gofrestredig	Canolfan Mileniwm Cymru Bute Place Bae Caerdydd Caerdydd CF10 5AL
Rhif Cwmni	00454297 (cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr)
Rhif elusen	221538
Cofrestrriad TAW	GB 218 9895 51

Cynghorwyr Proffesiynol

Archwilydd	Azets Audit Services Ty Derw Lime Tree Court Parc Busnes Porth Caerdydd Caerdydd CF23 8AB
Cyfreithwyr	Darwin Gray Solicitors Helmont House Churchill Way Caerdydd CF10 2HE
Bancwyr	Lloyds Bank plc 31 Stryd y Frenhines Caerdydd CF10 2AG

Cedwir arian cadw hefyd yn National Westminster a Barclays

Rheolwyr Buddsoddiadau

Brewin Dolphin Limited
5 Sgwâr Callaghan
Caerdydd CF10 5BT

Cyfarwyddwyr a Swyddogion

Bwrdd Cyfarwyddwyr a Phwyllgorau

Y cyfarwyddwyr ydy ymddiriedolwyr elusennol y Cwmni hefyd. Dangosir y cyfarwyddwyr a wasanaethodd trwy gydol y flwyddyn ariannol, oni nodir yn wahanol, a'r pwyllgorau y maent yn eu mynychu, isod:

	Archwilio a Risg	Enwebiadau
Yvette Vaughan Jones (Cadeirydd)		X
Nicola Amery	X	
Lynne Berry OBE		X
Chitra Bharucha MBE		
Toks Dada		X
Manon Edwards		
Daniel Evans		X
Sam Jones		X
Henry Little	X	
Andrew Miller		X
Aileen Richards		
Elen ap Robert		X
Martyn Ryan	X	
Geraint Davies (Cyfetholedig)	X	
Nigel Goldsworthy (Cyfetholedig)	X	

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod o leiaf chwe gwaith y flwyddyn, gan ddirprwyo materion priodol i'r pwyllgorau Awdit a Risg ac Enwebiadau. Mae pob pwyllgor yn penderfynu pa mor aml y bydd yn cyfarfod yn amodol ar yr angen i gyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn.

Y Tîm Gweithredol

Aidan Lang	Cyfarwyddwr Cyffredinol
Tomáš Hanus	Cyfarwyddwr Cerdd

Yr Uwch Dîm Rheoli

Matt Carwardine-Palmer	Cyfarwyddwr Marchnata a Gwerthu
Huw Davies	Cyfarwyddwr Cyllid ac Ysgrifennydd y Cwmni
Alison Dunnett	Cyfarwyddwr Datblygu, Cyfathrebu a Strategaeth
Emma Flatley	Cyfarwyddwr Ymgysylltu a Phartneriaethau
Peter Harrap	Cyfarwyddwr Corws a Cherddorfa
Jan Michaelis	Cyfarwyddwr Technegol